
ARTIST'S HANDBOOK



A GUIDE FOR ARTISTS WORKING
IN THE HOSPITAL ENVIRONMENT

CYMRAEG

Cyflwyniad

Tachwedd 2016

Croeso i Becyn Cymorth yr Artist.

Daeth y syniad i fodolaeth un prynhawn o wanwyn yn Abertawe yn ystod cyfarfod ymarferwyr a threfnwyr Celfyddydau, lechyd a Llesiant. Roedd llawer yn teimlo y byddai eu profiadau cyntaf o weithio mewn ysbytai wedi bod yn fwy boddhaol petaent wedi cael eu cyflwyno o'r cychwyn cyntaf i gymhlethdodau'r amgylchedd, ei staff a'i gleifion, polisiau, protocolau, contractau ac yn y blaen. Cynhyrchwyd y canllaw hwn gan dîm bach o unigolion sydd wedi rhannu eu dealltwriaeth o'r materion hyn o wahanol safbwyntiau o fewn maes y Celfyddydau ac lechyd. Dogfen waith yw hon a fydd, gobeithio, o help i chi.

Mae croeso i chi gyfrannu tuag at helpu i gadw'r ddogfen yn gyfredol a chywir. Os gwelwch unrhyw beth sydd angen ei gywiro yna, byddem yn ddiolchgar pe medrech ein hysbysu drwy e-bostio:

prue.thimbleby@wales.nhs.uk

Cynnwys

04	Pennod 1 Understanding the NHS in Wales
07	Pennod 2 Employment issues and Preparation
16	Pennod 3 Commissions and working with Capital Planning
25	Pennod 4 Artists in Residence
28	Pennod 5 Participatory work with staff and patients
38	Pennod 6 Evaluation and Research as part of Arts projects
43	Pennod 7 What Healthcare Staff need to know when working with an Artist
45	Atodiad Example Contracts and Consent forms and Other useful links

Gwybodaeth am y Tîm

Mae Nancy Evans yn Artist gweithredol ac yn Gydlynnydd Celfyddydau ac Iechyd Artis Cymuned, Pontypridd.

Sarah Goodey yw Rheolwr Datblygu Celfyddydau, Celfyddydau mewn Iechyd Gwent (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan).

Mae Heather Parnell yn Artist sy'n gweithio yn y maes cyhoeddus, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac mae'n arweinydd cwrs MA mewn Ymarfer Celfyddyd, Prifysgol De Cymru.

Angela Rogers yw cydlynnydd datblygu Engage Cymru.

Mae Prue Thimbleby yn Artist gweithredol ac yn gydlynnydd y Celfyddydau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe-Bro Morgannwg.

Mae Kira Withers-Jones yn Artist tecstilau ac ar adeg ysgrifennu yn fyfyrwr blwyddyn olaf MA mewn Ymarfer Celfyddydau, Celfyddydau mewn Iechyd a Llesiant Prifysgol De Cymru.

Mae Sarah Wright yn ymchwilydd ansoddol ym Mhrifysgol Abertawe.



1 Deall y GIG yng Nghymru

1.1 Byrddau Iechyd

1.2 Pwy yw pwy a pha wisgoedd a wisgir ganddynt?

1.3 Sut i ddod o hyd i waith yn ymwneud â'r celfyddydau o fewn amgylchedd y GIG

1.1 Byrddau Iechyd

Yn 2009 ailstrwythurwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru i ffurfio saith sefydliad lleol (Byrddau Iechyd) yn gyfrifol am iechyd yn cynnwys iechyd sylfaenol (cymunedol), eilaidd (ysbyty) a gofal iechyd meddwl. Ar hyn o bryd mae Cymru'n gweithio tuag at integreiddio pellach mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn awr yn cynllunio, yn diogelu ac yn cyflwyno gwasanaethau gofal iechyd yn eu hardaloedd.

Am wybodaeth bellach am bob un o'r Byrddau Iechyd gweler eu gwefannau:

1. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

2. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys


3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

4. Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

6. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

7. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



Kites at Hafan y Mor, Singleton Hospital, image courtesy of Kenton Simons.

Produced by Public Health Wales Observatory
© Crown Copyright and database right 2011,
Ordnance Survey 100044810

1.2 Pwy yw pwy a pha liw yw eu gwisgoedd?

Gall gweithio mewn amgylchedd iechyd fod yn ddryslyd – mae menter Cymru-gyfan wedi cyflwyno polisi gwisgoedd i helpu i adnabod aelodau staff a'u rolau.

Mae yna wisgoedd eraill arbenigol ar gyfer staff bydweigiaeth a chymorth technegol. Mae'r holl staff yn dilyn cod gwisg, sef gwisgoedd diogel, glân a phroffesiynol wedi eu dylunio ar gyfer osgoi lledaenu haint. Dylai'r holl staff hefyd gael bathodyn adnabod hawdd ei weld.

Swydd	Lliw
Prif Nyrs	Glas tywyll gyda streipen goch
Prif Nyrs/Rheolwr Ward	Glas tywyll
Nyrs Glinigol Arbenigol	Glas brenhinol
Nyrs Staff	Glas ysbyty
Cynorthwydd Gofal Iechyd	Gwyrdd potel
Myfyriwr	Porffor
Staff Gwasanaethau Gwesty	Coch tawel
Ffisiotherapydd	Top gwyn â bandiau glas
Cynorthwydd/Technegydd Ffisiotherapi	Top glas golau â bandiau glas
Therapydd Galwedigaethol	Top glas â bandiau gwyrdd
Cynorthwydd/Technegydd Therapydd Galwedigaethol	Top glas golau â bandiau gwyrdd



Health Care Assistant

Receptionist

Nurse Specialist

Ward Manager/Sister

Staff Nurses



Psychotherapist

Student Nurse

Psychotherapy Technician

Staff Nurse

1.3 Sut i ddod o hyd i waith yn ymwneud â'r celfyddydau yn y GIG

Cysylltwch ag unrhyw gydlynwyr y Celfyddydau neu arweinwyr y Celfyddydau o fewn pob un o'r Byrddau Iechyd. Mae'n debygol y bydd ganddynt gronfa ddata o Artistiaid y gellir ychwanegu eich enw ato neu restrau gwybodaeth a ddosberthir.

Noder:

Nid oes gan bob Bwrdd Iechyd raglen Gelfyddydau ar hyn o bryd nac arweinydd Celf; i gael y rhestr ddiweddaraf anfonwch e-bost at: prue.thimbleby@wales.nhs.uk

Cadwch lygad yn agored am hysbysebion ar:

<http://gov.wales/topics/improvingservices/bettervfm/?lang=en>

.....
www.publicartonline.co.uk

.....
www.re-title.typepad.com

.....
<http://www.artswales.org.uk/>

.....
<https://www.a-n.co.uk/news>

.....
www.artsinhealth.wales

Dyluniwch eich prosiect eich hunan a gweithiwch gyda sefydliad Celfyddydol, Cyngor Celfyddydau Cymru neu'r Bwrdd Iechyd perthnasol i wneud cais am gyllid. Cysylltwch â sefydliadau celfyddydol eraill ac awdurdodau lleol i weld a oes prosiectau Celfyddydau Iechyd a Llesiant y gallwch wneud cais iddynt.

Os ydych yn Artist sy'n teimlo'n angerddol am y Celfyddydau mewn Iechyd yna ystyriwch ymuno â Rhwydwaith Celfyddydau mewn Iechyd Cymru a derbyniwch wybodaeth a chyfleodd yn rheolaidd drwy gyfrwng y rhestr e-bost.

.....

**Ar gyfer Gogledd Cymru cysylltwch â Liz Aylett,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:
Elizabeth.Aylett@wales.nhs.uk**

**Ar gyfer y Canolbarth a De Cymru cysylltwch ag
Engage Cymru:
cymru@engage.org**

2 Materion cyflogaeth a pharatoi

- 2.1 Contractau
- 2.2 Cyfraddau Tâl
- 2.3 Yswiriant
- 2.4 Cliriad DBS
- 2.5 Asesiad Risg
- 2.6 Cyfrinachedd
- 2.7 Rheoli Haint
- 2.8 Ymsefydlu

2.1 Contractau

Mae contractau'n egluro'r berthynas rhyngoch chi a'ch cyflogydd drwy amlinellu'r rolau a'r cyfrifoldebau y cytunwyd arnynt gennych, pa wasanaethau sydd angen i chi eu cyflawni a phryd, a sut y byddwch yn cael eich talu. Offeryn yw eich contract i sefydlu a chynnal disgwyliadau ac – mewn arfer da – dogfen ar y cyd rhwng yr un a gyflogir a'r cyflogydd.

Wrth gychwyn swydd newydd, rôl neu gyfres o weithdai, perfformiadau unigol neu unrhyw ffurf o gyflogaeth 'newydd' nad yw wedi ei gwmpasu gan gytundeb priodol blaenorol, dylid cael contract a fydd yn amlinellu telerau ac amodau cyflogaeth.

Rhaid i'r rhain gynnwys:

- Eich manylion personol (enw, cyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni). Manylion eich cyflogydd, pwy fydd yn eich rheoli neu'n eich arolygu. Teitl a disgrifiad o'r swydd neu wasanaethau ar gyfer y contract.
- Hyd y contract.
- Gweithle y cytunwyd arno.
- Amlinelliad o weithgareddau gwaith a deilliannau y cytunwyd arnynt.
- Amserlen waith y cytunwyd arni.
- Ffi Contract/graddfa dâl/manylion costau.
- Amodau tâl (ac amserlen).
- Polisi canslo.

A gall hefyd gynnwys:

- Telerau ac amodau cyflogaeth: yn cynnwys polisiau'r cyflogydd yn y gweithle yn cynnwys iechyd a diogelwch, hyfforddiant, gwarchod data.
- Polisi salwch.
- Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Prawf o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a gwybodaeth am rwymedigaethau – pwy a beth sydd wedi ei yswirio gan bwy.

Gall contract am berfformiad unwaith yn unig hefyd gynnwys:

- Pwy sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r digwyddiad.
- Pwy sy'n gyfrifol am unrhyw dechneg/gweinyddu/cludiant.
- Beth sy'n digwydd os caiff y digwyddiad ei ganslo?

Bydd contractau ar gyfer comisiynau cyhoeddus graddfa fawr yn cynnwys ac yn disgrifio'n fanwl bob cyfnod o'r broses ddylunio a'r broses adeiladu, ynghyd ag amserlen arfaethedig a dyddiadau cyflwyno, rolau a chyfrifoldebau a rhwymedigaethau. Gweler Pennod 3 a'r Atodiad am ragor o fanylion.



Yn ddelfrydol, dylid cytuno ar gontractau cyn i'r gwaith gychwyn. Fodd bynnag, yn arbennig mewn sefydliadau mwy, gall cofrestru swydd newydd a chontractau sy'n rhaid eu cynhyrchu gymryd amser.

Os oes rhywbeth yn y cytundeb a gynigir i chi nad ydych yn ei ddeall trafodwch hyn gyda'ch cyflogydd, ac os nad ydyw'r manylion yn gywir, gofynnwch iddynt gael eu newid. Os teimlwch bod angen cynnwys mwy o wybodaeth, gofynnwch. Mae'n bwysig sefydlu dealltwriaeth dda ar gychwyn y broses fel y gall yr Artist a'r cyflogydd deimlo'n hyderus ynglŷn â gwireddu amcanion y prosiect.

2.2 Cyfraddau Tâl

Mae angen i Artistiaid roi rhif cofrestru treth i ddangos eu bod wedi cofrestru fel person hunangyflogedig gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Mae'n bwysig bod Artistiaid yn cael eu talu'n iawn. Gall y swm amrywio yn dibynnu ar brofiad yr Artist ac ar hyd y prosiect. Fel arfer caiff prosiect undydd fwy o dâl y dydd na chontract hwy.

Gellir dod o hyd i'r cyfraddau tâl yn y fan hon:

Artistiaid Gweledol

Mae a-n The Artist Information Company yn cynnig ystod o gyngor am gyfraddau tâl: <https://www.a-n.co.uk/paying-Artists>. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi gweithio gyda a-n i sicrhau bod pobl broffesiynol creadigol yn cael eu talu'n ddigonol am eu gwaith. <http://www.arts.wales/arts-in-wales/paying-Artists>

Artistiaid Perfformio

Bydd Equity ac Undebau Cerddorion yn negodi ffioedd ar gyfer Actorion a Cherddorion.

Gellir dod o hyd i beth cyngor yn y fan hon:

<http://www.equity.org.uk/resource-centre/rates-and-agreements/equity-rates/>
http://www.prospects.ac.uk/musician_salary.html

Noder: Dylai myfyrwyr hefyd gael eu talu am eu gwaith oni bai eu bod ar leoliad fel rhan o'u cwrs neu ran sylweddol o gyfle hyfforddi. Ni argymhellir ceisio cael Gwaith Celf am bris isel drwy ddefnyddio myfyrwyr fel gwirfoddolwyr.

2.3 Yswiriant

Fel Artist yn gweithio mewn amgylchedd cyhoeddus ac/neu gysylltu â phobl, bydd arnoch angen yswiriant rhag ofn y bydd damwain (personol neu i berson arall) yn deillio o'ch gweithgareddau, neu ddamwain yn deillio o waith celf y gallech fod wedi ei lunio a'i osod mewn man cyhoeddus. Mae pob sefydliad yn dod yn gynyddol wrth-risg oherwydd risg cynyddol o ymglyfreitha.

Os cewch eich cyflogi'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd neu sefydliad arall, efallai y bydd y gweithgareddau y cytunwyd arnynt wedi eu cwmpasu gan eu hyswiriant hwy; os mai dyma'r achos dylai hyn gael ei ddatgan yn glir yn y contract.

Heb yswiriant gall yr Artist, os caiff person niwed neu os caiff offer ei dorri, fod yn bersonol atebol. Mae yna nifer o wahanol fathau o yswiriant y gellid gofyn i chi i roi tystiolaeth yn eu cylch, neu y gellid disgwyl i chi fuddsoddi ynddynt fel rhan o'ch gwaith.

Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (PLI) – Mae Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn sicrhau atebolrwydd cyfreithiol yr Artist i dalu iawndal yn erbyn unrhyw hawliadau a wneir gan aelodau'r cyhoedd (neu drydydd parti) os cânt eu hanafu yn ystod gweithgaredd, gweithdy neu ymweliad â chanolfan neu brosiect, neu os caiff eiddo ei niweidio fel canlyniad i weithgareddau proffesiynol Artist. Dylai Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus hefyd dalu am ddamwain yn deillio o ddarn o gelf a gafodd ei lunio a'i osod.

Bydd atebolrwydd yn dibynnu ar berchnogaeth y gwaith celf o dan sylw a gall Artist gael ei ddal yn atebol os darganfyddir nad yw'r gwaith yn addas at y diben.

Os ydych yn gwneud cais am rôl neu gomisiwn newydd, efallai y gofynnir i chi gyflwyno tystiolaeth o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o fewn y cais.

Nid yw bod yn berchen ar Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn ofyniad cyfreithiol; fodd bynnag, mae cyflogwyr a chomisiynwyr yn gyson yn gofyn i Artistiaid sicrhau bod ganddynt Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gwerth £5m a gallai hyn godi yn y dyfodol. Er enghraifft, mae gan lawer o awdurdodau lleol reolau cyffredinol sy'n berthnasol i bob contractwr (adeiladu, er enghraifft) sy'n gofyn am symiau uchel o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.

Lantern, Anna Heinrich and Leon Palmer, Taith Newydd Glanrhyd Hospital, image courtesy of the artists.



Indemniad Proffesiynol i Artistiaid – Nid yw'r defnydd o'r yswiriant hwn mor eang ond byddai fel arfer yn cwmpasu'r atebolrwydd cyfreithiol y byddai gennych am ddarparu cyngor arbenigol artistig i'ch cyflogydd neu gomisiynydd, y gwnaethant hwy ddibynnu arno ac a achosodd golled ariannol fesuradwy neu niwed i'ch cyflogydd neu gomisiynydd.

Mae yna hefyd rai mathau o yswiriant sy'n werth eu hystyried fel unig fasnachwr/Artist hunan-gyflogedig.

Yswiriant Damweiniau Personol – Beth fydd yn digwydd os digwydd i mi niweidio fy hunan yn y gwaith heb yr hawl i dderbyn tâl salwch neu fudd-daliadau? Gallwch fuddsoddi mewn yswiriant a fydd yn talu am y golled i'ch busnes.

Yswiriant Eiddo Mae hefyd yn werth ystyried yswiriant eiddo yn erbyn colli eich offer a chyfarpar, cartref/stiwdio waith, a gwaith sydd ar y gweill – os ydych i fod i gwblhau comisiwn a'i fod yn cael ei ddifrodi cyn i chi ei gyflwyno, efallai bydd yn rhaid i chi ddod o hyd i arian i'w atgyweirio neu ei ail-lunio.

Darparwyr Yswiriant Arbenigol

Mae yna amrywiaeth o gwmnïau a all ddarparu yswiriant, a nifer o sefydliadau o dan arweiniad Artistiaid sydd â phhecynnau arbennig ar gael drwy eu cynlluniau aelodaeth.

Mae a-n: The Artists Information Company yn cynnig Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gyda'u ffi aelodaeth ac mae ganddynt ystod o wybodaeth ar-lein. Mae eu polisi presennol (2015) yn cynnwys deunyddiau, gwaith sydd ar y gweill, gwaith sydd wedi ei gwblhau, cludiant, offer a chyfarpar, lleihad mewn elw gros yn dilyn damwain, gydag Atebolrwydd Cyflogwyr ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ychwanegol yn ôl y galw.

(<https://www.a-n.co.uk/about/insurance>).

Mae'r Society for All Artists yn cynnig gwahanol lefelau o aelodaeth gyda pholisïau yswiriant addas (<http://www.saa.co.uk/insurance-page>).

Os dymunwch gael mynediad i gyngor ar yswiriant atebolrwydd gallwch gysylltu â brocer. Mae'r British Insurance Brokers' Association (BIBA) yn Gymdeithas Fasnach nid-er-elw ar gyfer broceriaid yswiriant. Rhif y Llinell Gymorth i Ddefnyddwyr BIBA yw: 0870 950 1790.

Mwy o wybodaeth:

Mae Celf Gyhoeddus Arlein yn cynnig nifer o adnoddau i Artistiaid yn cynnwys canllawiau ar yswiriant ac atebolrwydd: <http://www.publicartonline.org.uk/resources/practicaladvice/adviceArtists/insurance.php>

<http://www.publicartonline.org.uk/resources/practicaladvice/adviceArtists/liability.php>

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru daflen wybodaeth yn cynnwys yswiriant ar: gontractau, ffioedd a materion cyfreithiol: www.artscouncilofwales.org.uk/88908.file.dld

2.4 Cliriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) wedi uno i ddot y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Caiff gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Trosedd eu galw'n Wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r DBS yn galluogi sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol i wneud penderfyniadau recriwtio diogelach drwy ddynodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer rhai mathau o waith, yn arbennig waith sy'n ymwneud â phlant neu oedolion agored i niwed.

Gall y DBS deimlo fel biwrocratiaeth – isod gweler canllaw cam wrth gam ar gyfer cael tystysgrif DBS. Unwaith y byddwch wedi cwblhau hwn gallwch gofrestru ar gyfer y gwasanaeth diweddar, yna'r cwbl fydd yn rhaid i chi ei wneud yw ei ddangos i'ch cyflogydd nesaf a byddant yn gwneud cofnod o'r rhif 12 digid ar eich tystysgrif a'ch enw a'ch dyddiad geni a byddant yn mynd ar-lein ac yn gwneud gwiriad statws ar wefan y DBS.

Felly sut mae mynd ati i gael y dystysgrif DBS a chofrestru ar gyfer y gwasanaeth diweddar?

- 1** Bydd y person sy'n delio â chliriad y DBS yn yr ysbyty'n rhoi ffurflen i chi ei llenwi neu ddolen electronig gyda chyfeirnod sefydliadol a chyfrinair fel y gallwch gwblhau'r ffurflen arlein.
- 2** Wedyn bydd angen i chi fynd â thair dogfen adnabod i'r person sy'n delio â'ch cliriad DBS er mwyn iddynt wneud gwiriad adnabod. Gnewch yn siŵr bod y ffurflen wedi ei llenwi'n gywir (Os mai copi papur yw ewch ag ef gyda chi ar gyfer eich gwiriad adnabod) a gnewch yn siŵr bod gennych y dogfennau cywir ar gyfer gwiriad adnabod. Mae yna restrau clir gyda'r ffurflen ac arlein.
- 3** Byddwch yn cael rhif cyfeirnod ar gyfer eich ffurflen gais. Pan fydd popeth wedi ei gyflwyno gallwch ddefnyddio'r rhif hwn i gofrestru ar gyfer cyrchu'r gwasanaeth diweddar ar www.gov.uk/dbs-update-service. Neu gallwch ddefnyddio rhif tystysgrif y DBS ar ôl iddo gyrraedd – ond rhaid i chi gofrestru o fewn 14 diwrnod ar ôl i chi ei dderbyn. Mae'r gwasanaeth diweddar'u'n costio £13 y flwyddyn i weithwyr cyflog. Ar ôl i chi danysgrifio byddwch yn derbyn rhif adnabod gwasanaeth diweddar unigryw – bydd yn caniatáu i chi wirio eich statws ar unrhyw adeg – ni ddylech roi'r rhif hwn i unrhyw un arall.
- 4** Dylai'r dystysgrif gyrraedd o fewn rhyw bythefnos. Efallai na fydd yr ysbyty'r derbyn copi – bydd angen i chi ddangos y copi iddyn nhw. Os bydd yr ysbyty'n penderfynu gwirio eich statws yn rheolaidd (yn ystod cyfnod hir o gyflogaeth) yna bydd angen i chi roi caniatâd a byddant yn cofnodi'r rhif tystysgrif 12 digid, eich enw a'ch dyddiad geni.
- 5** Ni fydd angen i gyflogwyr dilynol wneud gwiriad newydd, ond bydd angen iddynt weld eich tystysgrif DBS a byddant yn cofnodi'r rhif tystysgrif 12 digid, eich enw a'ch dyddiad geni a byddant yn mynd arlein i wirio eich statws ar wefan y DBS. Mae yna rai eithriadau – e.e. gallai eich cyflogaeth newydd fod yn gofyn am wahanol fath o dystysgrif DBS e.e. gwiriad ehangach ar gyfer gweithio gyda phlant. Yn yr achosion hyn efallai y bydd amoch angen tystysgrif DBS bellach.
Gweler gwybodaeth bellach ar www.gov.uk/dbs

2.5 Aseiad Risg

Diffiniad syml o aseiad risg yw archwiliad manwl o'r hyn a allai niweidio pobl wrth wneud gweithgaredd penodol neu mewn amgylchedd penodol fel y gallwch bwysu a mesur p'un ai ydych wedi cymryd digon o ragfalon neu a ddylech wneud mwy. Gellir perfformio aseiad risg gan unrhyw un sy'n ymwneud â chynllunio gweithgaredd penodol neu waith celf cyhoeddus arfaethedig; fodd bynnag gallai eu cynnwys amrywio yn dibynnu ar safbwynt aelod o'r staff.



1. Dynodi'r peryglon.

2. Penderfynu pwy a allai gael ei niweidio.

3. Gwneud amcangyfrif o'r risg.

4. Cofnodi'r canfyddiadau a chyfleu hyn i bawb a fyddai'n cael eu heffeithio gan y canlyniadau.

5. Adolygu'r aseiad a'r gweithgaredd wedi hynny a'i addasu os oes angen.

Mewn sefyllfa gweithdy, gall asesiad risg gwmpasu: offer, adnoddau ac unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddir (paent, glud ac ati). Efallai y bydd rhai amgylcheddau lle na chaiff offer minoiog ei ganiatáu, ac efallai y bydd angen defnyddio gweithgareddau a dulliau amgen. Fel ymarferydd, efallai y gofynnir i chi am ddeunyddiau arfaethedig. Efallai y bydd amoch angen taflen ddata Rheoli Deunyddiau Peryglus (COSHH) a gaiff ei darparu gan Weinyddiaeth Iechyd a Diogelwch. Gweler <http://www.hse.gov.uk/coshh/>

Mae'n arfer da cynnal asesiad risg o'ch gweithgareddau chi eich hunan er mwyn dynodi unrhyw faterion a allai godi, a thrafod hyn naill ai gyda'ch cyflogydd neu aelod o staff y GIG sy'n gweithio gyda'ch grŵp cleifion yn rheolaidd.

Mae Asesiadau Risg yn dod yn fwy cymhleth pan fyddwch yn cynllunio gwaith celf cyhoeddus ac yn aml cânt eu gweithredu yn ystod y cyfnod dylunio, cynhyrchu a gosod. Mae yna amrywiaeth o offer a thafleuni gwybodaeth ar-lein a fedr roi i chi enghreifftiau o wahanol asesiadau risg a sut i'w defnyddio.

Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr yn cynnig canllaw i Reoli Risg ac adnoddau:

<http://www.artscouncil.org.uk/selfevaluation/framework/business-management/risk-management/>

Cyngor Celfyddydau Cymru / Asesiad Risg a thempled goleuadau traffig http://www.artscouncilofwales.org.uk/c_rfo-guidance/risk-assessment-and-traffic-light-template

Canllaw i Arfer Diogel mewn Celf a Dylunio: Asesiadau Risg

<http://www.nsead.org/hsg/hs205.aspx>

Arwain iechyd a diogelwch yn y gweithle Mae arweiniad am ddim ar asesiad risg: **Five Steps to risk Assessment** is ar gael ar www.hse.gov.uk/pubns/indg163.pdf.

Mae Artistiaid mewn Iechyd a Diogelwch yn y Maes Cyhoeddus

yn cwmpasu Asesiad Risg:

http://www.publicartonline.org.uk/resources/practicaladvice/commissioning/health_safety.php

Dyma enghraifft sylfaenol o asesiad risg ar gyfer gweithdy gyda chleifion hŷn mewn ward ysbyty:

What are the hazards?	Who might be harmed and how?	What are you already doing?	Do you need to do anything else to control this risk?	Action by who?	Action by when?	Done
Llithro a baglu	Gallai cleifion, staff ac ymwelwyr gael niwed os byddant yn baglu dros wrthrychau, neu'n llithro ar ddeunydd sydd wedi gollwng.	Mae gofod y gweithdy'n cael ei gadw'n daclus a deunyddiau sydd wedi gollwng yn cael eu clirio ar unwaith . Dim gwifrau neu geblau sy'n llusgo.	Gwella golau yn y gweithdy drwy amnewid bylbiau sydd wedi torri. Trefnu i deils carped rhydd gael eu trwsio.	Prif nyrs y ward i gysylltu â'r adran stadau.	O hyn ymlaen – xx/xx/xx	xx/xx/xx xx/xx/xx



Lightwell glasswork,
David Pearl, Ysbyty Cwm
Cynon, Image courtesy
of Celfwaith.



2.6 Cyfrinachedd

Rhaid i Artistiaid, fel aelodau o'r staff (dros dro neu fel arall), barchu cyfrinachedd y claf. Gweler hefyd Bennod 6 Gwerthuso a Moeseg.

Diogelu

Mae dyletswydd cyfrinachedd yn deillio o ddeddf gyffredin cyfrinachedd, goblygiadau proffesiynol a hefyd gontractau cyflogaeth staff. Gallai torri cyfrinachedd, camddefnyddio cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol neu gamddefnyddio systemau cyfrifiadurol arwain at fesurau disgyblaethol, godi cwestiynau am gofrestru proffesiynol ac o bosibl arwain at achos cyfreithiol. Dylai Artistiaid sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion a safonau ymddygiad sy'n berthnasol.

a. Gwybodaeth lafar

Ni ddylai staff fyth glebran am gleifion ac os ydynt yn trafod achos am resymau clinigol yna dylent ddefnyddio cyn lleied â phosib o'r wybodaeth sydd ei hangen a dylent fod yn ofalus wrth drafod gyda chydweithwyr mewn manau cyhoeddus.

b. Cofnodion ysgrifenedig ac electronig

Ni ddylai staff adael cyfrifiaduron symudol, nodiadau meddygol na ffeiliau achos mewn ceir heb neb ynddynt neu mewn manau hawdd eu cyrchu. Yn ddelfrydol dylid storio offer symudol o dan glo pan na fydd yn cael ei ddefnyddio. Os oes amoch angen gwybodaeth glinigol ar gleifion fel rhan o'ch prosiect Celf yna trafodwch ddiogelwch gwybodaeth gydag phrif staff yn yr ardal glinigol lle rydych yn gweithio.

c. Ffotograffau

Mae cyfrinachedd hefyd yn ymestyn i dynnu ffotograffau o'r rhai sy'n aros am ofal – er enghraifft, mewn ardaloedd aros clinigol cleifion allanol, bwytai ysbyty, ardaloedd tu allan i'r ysbyty yn ogystal ag ar y wardiau. Rhaid derbyn caniatâd clir i ffotograffau gael eu cymryd. Mae dangos ffotograffau i'r cyfranogwyr yr ydych wedi tynnu ffotograff ohonynt o fewn sesiwn yn rhoi cyfle iddyn nhw ddewis a fedr wch eu defnyddio ai peidio. Gweler Atodiad am ffurflen ganiatâd enghreifftiol.

Caniatâd Gwybodus

Mae'n hanfodol bod cleifion yn cael gwybodaeth glir am ba beth y maent wedi rhoi caniatâd ar gyfer ei ddefnyddio a sut y gallant dynnu'r caniatâd yn ôl os ydynt yn newid eu meddwl – mae hefyd yn bwysig ystyried a yw claf yn medru rhoi caniatâd – a ydynt yn gwbl ymwybodol, a ydynt yn deall beth ydych yn ei ddweud, a ydynt yn deall lle gall delweddau gael eu defnyddio a phwy a allai eu gweld, a ydynt yn agored i niwed? Bydd staff yn rhoi gwybod i chi os oes cleifion na fedr roi caniatâd gwybodus.

Os gwnewch chi ddysgu am rywbeth sy'n peri pryder i chi oherwydd y gallai arwain at rywun yn cael niwed mae'n hanfodol eich bod yn dweud wrth berson priodol megis eich cyswllt yn yr ysbyty neu reolwr/prif nyrs ward.

Noder: Datganiadau i'r Wasg

Dylai pob cyfathrebiad â'r wasg gael ei drin drwy ei drafod gyda'ch person cyswllt allweddol ac mewn partneriaeth â thîm cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd.

2.7 Rheoli haint

Os yw Artistiaid yn anhwylyd, ni ddylent ymweld â chleifion mewn ardaloedd gofal.

Hylendid anadlol a moesau peswch

Cuddiwch eich trwyn a'ch ceg â hances papur pan fyddwch yn tisian, yn peswch, yn sychu a chwythu trwyn. Ar ôl eu defnyddio, taflwch yr hancesi papur i fin gwastraff heb gyffwrdd â chlwr y bin. Golchwch eich dwylo ar ôl peswch, tisian, defnyddio hances papur, neu ar ôl bod mewn cysylltiad â secretiad anadlol neu wrthrychau wedi eu halogi gan y secretiadau hyn.

Dolur rhydd ac/neu chwydu

Os oes gan Artistiaid symptomau o ddolur rhydd ac/neu chwydu, wedi cael symptomau'n ddiweddar, neu wedi bod mewn cysylltiad ag eraill sydd wedi cael y symptomau hyn yn ystod yr 72 awr ddiwethaf, rhaid iddynt gadw draw o bob ardal gofal cleifion.

Dylai Artistiaid ymatal rhag ymweld â'r ardaloedd hyn am o leiaf 72 awr ar ôl i'r symptomau ddiplannu, neu am 72 awr ar ôl bod mewn cysylltiad â rhywun arall sydd wedi cael symptomau o ddolur rhydd ac/neu chwydu.

Noder: Dylai Artistiaid roi gwybod i'r ysbyty cyn gynted ag y maent yn teimlo'n sâl.

Dwyllo

Dwyllo yw'r dull mwyaf cyffredin o drosglwyddo micro-organebau, yn arbennig facteria sydd wedi hynny yn achosi heintiau, yn arbennig ymhlith y rhai sydd fwyaf agored i haint. Glanweithdra dwyllo da, a golchi gyda sebon a dŵr – gan ddilyn y camau yn y diagram isod – yw'r arfer mwyaf pwysig ar gyfer lleihau trosglwyddo clefydau heintus. Mae gofalu am ddwyllo'n bwysig ar gyfer amddiffyn y croen rhag sychu a chracio. Gallai croen sydd wedi cracio annog micro-organebau i gasglu.

Rhaid tynnu gemwaith, oriawr, sgarff a thei pan yn gweithio gyda chleifion i atal lledaeniad micro-organebau drwy gysylltiad â gemwaith neu ddillad llac halogedig. Argymhellir y dylai'r holl staff gael breichiau noeth islaw'r penelin. Dylai Artistiaid sydd mewn cysylltiad ag amgylchedd cleifion olchi gyda sebon neu rwbio dwyllo â deunydd seiliedig ar alcohol ac, os ydynt mewn cysylltiad â chleifion, olchi eu dwyllo cyn ac ar ôl pob claf.

Gweithdrefn ar gyfer rhwbio dwyllo a deunydd sy'n cynnwys alcohol

Rhwng golchi dwyllo â sebon a dŵr, gellir defnyddio gel sy'n cynnwys alcohol. Dylai cyfarwyddiaidau gwneuthurwyr nodi faint o hwn sydd angen ei ddefnyddio i lanhau'r dwyllo'n ddigonol. Fel arfer mae hwn rhwng 3ml neu 2-3 dos (pympiad) o'r teclyn dosbarthu. Dilynwch yr un weithdrefn ag ar gyfer golchi dwyllo isod.



Gwaith Celf

Dylai gwaith celf mewn amgylcheddau o dan do gael wynebau llyfn sy'n hawdd eu glanhau ynghyd â glanedydd aml-bwrpas niwtral (ni argymhellir fel mater o drefn gyfryngau gwrthficrobaidd). Mae angen i ddeunyddiau gwydn gael eu defnyddio mewn gweithiau celf gan y byddant yn cael eu glanhau dro ar ôl tro dros nifer o flynyddoedd – e.e. efallai bod teils cerameg ar furiau mewn ardaloedd bwyd yn cael eu pwysolchi felly rhaid i deils a growt fod o safon a all wrthsefyll hyn.

Os yw'r gwaith celf i gael ei osod mewn man uchel rhaid ystyried sut y gellir ei gyrraedd (efallai fel rhan o amserlen glanhau ffenestri). Mae'n werth trafod deunyddiau posibl a safle'r gwaith celf gyda staff rheoli heintiau'r ysbyty i sicrhau bod amserlen lanhau/cynnal a chadw ar gyfer y gwaith celf yn briodol cyn gwneud penderfyniadau terfynol. Dylai gwaith celf yn yr awyr agored ar y cyfan fod yn waith hawdd ei gynnal a'i gadw, yn waith a all wrthsefyll fandaliaeth, yn hawdd ei lanhau ac yn ymatebol i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Cyfeirnod:

http://www.nhsprofessionals.nhs.uk/download/comms/cg1_nhsp_standard_infection_control_precautions_v3.pdf

2.8 Ymsefydlu

Wrth gychwyn swydd neu rôl newydd o fewn sefydliad, efallai bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig neu'n cael ei roi i chi a elwir fel arfer yn 'Ymsefydlu'. O fewn sefydliadau mawr fel y GIG, bydd hyn yn orfodol gan y bydd rhannau o'r cwrs yn cynnwys materion Iechyd a Diogelwch y bydd angen i bob un a gyflogir fod yn ymwybodol ohonynt a derbyn hyfforddiant ffurfiol ynddynt.

Dyma restr wirio o bethau a ellid eu cynnwys:

- Cyflwyniad i'r sefydliad, beth mae'n ei wneud, beth yw ei amcanion a'i nodau, ei ehangder a'i werthoedd.
- Llywodraethu Gwybodaeth – beth sy'n gyfrinachol a pham; diogelu data

Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle:

- Mae gan eich cyflogydd ddyletswydd i ofalu am y rhai a gyflogir yn y gweithle. Gallai hyn cynnwys codi a chario, diogelwch tân ac ati.
- Disgwylir i chi weithio yn unol â'ch hyfforddiant, i adrodd ar ddigwyddiadau, gofalu am eich hunan ac eraill ac ymatal rhag ymyrryd ag offer.
- Adrodd ar ddigwyddiadau – adrodd ar ddamweiniau, anafiadau a digwyddiadau ymosodol.
- Asesiadau Risg – beth ydynt, pwy sy'n eu perfformio, sut maent yn gweithio.
- Rheoli Haint.
- Iechyd Galwedigaethol a gwasanaethau cymorth i staff.

Gall ymsefydlu lleol gynnwys:

- Cynllun yr ardal, toiledau, cegin, allanfeydd tân.
- Pwy yw pwy ar y staff a sut i gysylltu â nhw.
- Gwybodaeth glinigol berthnasol, dealltwriaeth o gyflyrau cleifion.
- Pa ofod ac adnoddau sydd ar gael ar gyfer eich gwaith.



Mae hefyd yn ddefnyddiol i wneud eich rhestr wirio chi eich hunan o bethau sy'n benodol i'ch rôl sydd arnoch angen eu gwybod.

3 Comisiynu a Chynllunio Cyfalaf

3.1 Cael comisiwn

3.2 Dechrau arni

3.3 Yn ystod cyfnod y comisiwn

3.4 Cwblhau

3.5 Rhestr o dermau allweddol

3.6 Perfformio fel comisiwn

Mae'r bennod hon yn cwmpasu'r hyn sydd angen i Artistiaid ei wybod am wneud cais am, ac ymgymryd â chomisiynau celf cyhoeddus fel rhan o brosiectau adeiladu cyfalaf mewn gofal iechyd.

Mae'r term celf cyhoeddus fel arfer yn cyfeirio at weithiau celf gweledol sy'n ymyriadau amgylcheddol. Gall y rhain fod yn gerfluniau sy'n sefyll ar eu pen eu hun, ond yn fwy aml maent yn rhai sydd wedi eu hymgorffori yn y seilwaith, e.e. mewn gwydr neu ar y llawr, neu wedi eu hintegreiddio i mewn i eitemau swyddogaethol fel canopiau, goleuo a manau eistedd. Adrannau cynllunio cyfalaf sy'n gyfrifol am reoli datblygiadau adeiladu newydd ac ailwampio eiddo'r Bwrdd Iechyd. Mae'r prosiectau hyn yn cymryd blynyddoedd o'r dechrau i'r diwedd a gall Artistiaid ddisgwyl gymryd rhanam gyfnod o rhwng 6 mis a 3 blynedd, yn dibynnu ar faint y prosiect a natur rôl yr Artist.

Fel arfer, caiff Artistiaid eu comisiynu i ddylunio a chyflawni gweithiau celf sy'n ymateb i geisiadau arbennig, megis ar gyfer gwella ac ychwanegu at gymeriad arbennig amgylchedd iechyd newydd. Caiff rhai Artistiaid eu comisiynu fel rhan o gynllunio strategol yng nghyfnodau cynnar dyluniad adeilad, gan chwilio am ddulliau o fewnosod a gwau celf mewn dull holistig a chynhyrchiol ar wynebau, fel rhan o gynllun plannu, lliw a deunydd paletau, dodrefn, tecstilau a mwy.

3.1 Cael Comisiwn

Mae yna ddau lwybr ar gyfer cael comisiwn celf cyhoeddus (DS efallai y caiff llwybr caffael y naill a'r llall ei reoli'n uniongyrchol drwy gyfrwng curadur celf/ymgyngorydd celf yn gweithio ar ran y Bwrdd Iechyd):

a. Cyfweliad

Un broses ddethol boblogaidd yw'r un sy'n golygu bod Artistiaid ar y rhestr fer yn cwblhau cyflwyniad byr a chyfweliad. Fel arfer caiff Artistiaid wahoddiad i siarad am brosiectau o'r gorffennol y teimlant eu bod yn berthnasol i'r comisiwn, gan ddangos eu hymagwedd, sgiliau, arbenigedd a methodoleg. Gall yr Artist gael gwahoddiad i ddyfalu am drywydd posibl gwaith celf os bydd yn llwyddo i ennill comisiwn, felly mae'n ddefnyddiol, fel rhan o'ch cyflwyniad, i wneud peth ymchwil cefndirol a chael rhai syniadau cychwynnol.

Yn aml iawn caiff y rhain eu hamseru, felly mae'n bwysig eich bod wedi paratoi eich cyflwyniad i gynnwys popeth y dymunwch ei ddweud o fewn yr amser a glustnodwyd. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i chi gyrraedd gyda maquette a syniadau dylunio cyflawn, a heblaw am gostau teithio, nid oes unrhyw ffi am y math hwn o gyfweliad.

Bydd y panel y byddwch yn cwrdd ag ef yn amrywio o gomisiwn i gomisiwn, o ryw 2 i 10 aelod. Bydd cyfansoddiad y tîm yn dibynnu ar natur a graddfa'r comisiwn, felly mae'n bosibl y bydd y cadeirydd a'r prif weithredwr yn bresennol, aelodau'r o'r tîm cynllunio cyfalaf, penseiri, clinigwyr, ymgynghorwyr celf, cynrychiolwyr cleifion ac arbenigwyr eraill yn ôl priodoldeb. Bydd gan bob aelod o'r panel ddiddordeb arbennig yn y modd y gallech gwrdd â thelerau'r briff.

Yn dilyn eu penodi ac ar ôl trafodaeth o'r contract disgwylir i'r Artist ddatblygu syniadau cysyniad, dyluniadau terfynol a gweithrediad/gosodiad y gwaith drwy gyfrwng amserlen y cytunwyd arni a phroses ymgynghori.

Mae'r dull hwn o gomisiynu'n boblogaidd pan fydd yna ddymuniad i ddatblygu rhaglen gelf gyhoeddus drwy broses ymgynghori ac archwilio. Er enghraifft, gall y bydd y tîm prosiect yn chwilio am Artist/tîm i ddynodi'r cyfleoedd ar gyfer gweithiau celf integredig; beth, ble a sut y gall celf ddod yn rhan o adeilad newydd. Efalla y bydd y comisiynydd yn dymuno ennyn ymgyfraniad ymarferol cyfranogwyr yn natblygiad y dyluniad neu waith/weithiau celf ac yn yr achos hwn byddai diddordeb, gallu ac ymagwedd yr Artist tuag at ymdrech gydweithredol yn allweddol.

b. Cystadleuaeth ddylunio

Mae'r brif broses ddethol arall yn golygu creu rhestr fer o Artistiaid a fydd yn cael eu talu am ddylunio cysyniad ynghyd ag amcangyfrif o'r costau a rhaglen ar gyfer cynhyrchu a gosod. Gellir cyflwyno hyn o fewn cyflwyniad i banel, a/neu ei gyflwyno ar gyfer ei arddangos am gyfnod penodol i gynulleidfa ehangach. Swm cymharol fychan a gynigir (£500-£1500 fel arfer) ac anaml y bydd yn ddigon i dalu am yr amser a fuddsoddir yn y gwaith o ddatblygu'r cysyniad. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd yr Artist llwyddiannus yn elwa o ennill y comisiwn.

Yn dilyn eu penodi bydd yr Artist yn cael contract i gynhyrchu'r dyluniadau terfynol, i weithredu/gosod y gwaith/cynnal gweithiau celf o fewn amserlen a chyllideb y cytunwyd arnynt. Mae'r dull hwn o gomisiynu'n boblogaidd pan fyddir yn chwilio am Artist i ymateb i friff, thema, diben, palet deunyddiau a lleoliad penodol iawn ac yn y blaen.



Courtyard sculpture,
Walter Jack, Ysbyty Cwm
Cynon, image courtesy
of Celfwaith.

3.2 Dechrau arni

Mae'n bwysig bod y comisiwn celf yn cael ei sefydlu'n ofalus cyn cychwyn y gwaith, gyda nodau wedi eu diffinio'n eglur, amserlenni, system gyfrifoldebau a chyfathrebu. Yn y modd hwn, bydd yr Artist a'r comisiynydd yn gallu nodi unrhyw broblemau sydd angen mynd i'r afael â nhw a monitro cynnydd drwy bob cyfnod a ragwelir i fyny at gwblhad y gwaith.

Person cyswllt allweddol

Yn ddelfrydol bydd person yn cael ei neilltuo i chi fel eich prif gyswllt o ddydd i ddydd. Bydd y person yma'n trafod dogfennau gyda chi megis briff Artist, contract, rhaglen ac ati, ac yn gweithredu fel cyswllt rhyngoch ag eraill yn ôl y galw e.e. staff clinigol, cyllid neu beirianwyr. Dylai eich prif gyswllt fod yn medru eich helpu i greu fframwaith gyfathrebu a monitro da ar gyfer y comisiwn. Gall y person yma hefyd eich helpu gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych, cyfarfodydd yr ydych yn dymuno eu trefnu, anfonebu a deunyddiau eraill i helpu'r comisiwn i symud yn ei flaen e.e. cynlluniau adeiladu, drychiadau, cynlluniau lliw, cynlluniau plannu, paletau deunyddiau, rhaglenni adeiladu ac yn y blaen. Yn ddelfrydol bydd y person yma'n deall ac yn teimlo'n gysurus o fewn y broses comisiynu celf, y contract adeiladu cyfalaf ac anghenion gweithredol/clinigol a phrotocolau'r comisiynydd gofal iechyd. Petaech yn penderfynu ymgymryd ag unrhyw ffurf o ymgysylltu cyhoeddus fel rhan o'r dylunio neu'r broses ymgynghori, bydd y cyswllt allweddol yn ymwybodol o'r polisïau a'r protocolau megis gwiriadau'r DBS a chaniatâd ffotograffiaeth ac yn medru eich cynorthwyo neu eich arwain yn y paratodau hyn.

Briff Artist

Mae'r briff yn allweddol i'r comisiwn ac mae'n cynnwys deunydd a ddylai lywio ac arwain eich ymchwil, datblygiad y cynhyrchiad a gosod. Bydd briff yn cynnwys deunydd fel:

Gwybodaeth gefndir: Beth yw natur y gwaith celf, beth sydd ynddo, sut y caiff ei ddefnyddio, sut y bydd y cleifion yn ymddwyn ynddo, disgrifiadau ffisegol.

Yr amserlen ar gyfer y rhaglen adeiladu.

Dyddiad cau ar gyfer gosod y gwaith celf (fel arfer cyn i'r adeilad agor a chyn i gleifion symud i mewn er mwyn osgoi aflonyddwch).

Cwmpas y gwaith/gweithiau celf, yr hyn gallwch a'r hyn na allwch ei wneud yn yr adeilad, deunyddiau posibl, prosesau, lleoliadau, themâu a phwrpas.

Ystyriaeth o faterion ymarferol megis iechyd a diogelwch, tân, gosod y gwaith, cynnal a chadw, a bwyd a deunyddiau traul ac yn y blaen.

Y broses ymgynghori, sut y cytunir ar benderfyniadau a sut y cânt eu dwyn yn eu blaen, ac a ddisgwylir i eraill gymryd rhan yn y broses ddylunio.

Contract

Dylai contract fod yn ddogfen ddefnyddiol iawn sy'n amlinellu beth fydd yr Artist yn ei wneud ar gyfer y comisiynydd a beth fydd y comisiynydd yn ei wneud ar gyfer yr Artist. Mae'r contract yn rhoi gwybodaeth eglur ar amserlenni, cyfnodau, ffioedd, beth a gwmpesir ganddynt ac amserlenni talu. Mae hefyd yn nodi cyfrifoldebau sy'n diogelu pobl, y stad a'r gweithiau celf drwy yswiriant megis atebolrwydd cyhoeddus, hawliau eiddo deallusol, glynw wrth reoliadau iechyd diogelwch a thàn, rheoli cynnal a chadw, is-gontractau a'r hyn na ellir ei ragweld.

Weithiau mae comisiynwyr yn mabwysiadu neu'n addasu templedi contract (e.e. contractau NEC) sy'n cynnwys llawer o ddeunydd safonol a chymalau addas ar gyfer penodiadau ymgynghorol yn ychwanegol at eu termau a thelerau caffael safonol, e.e. yswiriant indemniad cyhoeddus. Dylech gymryd yr amser i ddarllen, gofyn cwestiynau a negodi newidiadau lle mae hynny'n briodol ac yn bosibl er mwyn ei wneud yn addas at y diben. Gweler yr Atodiad am dempled contract sy'n ffocysu ar gelf gyhoeddus.

Amserlen talu

Mae'n syniad da dod i wybod sut y caiff taliadau eu gwneud i Artistiaid a gomisiynwyd cyn cwblhau amserlen talu. Gall systemau cyllid Byrddau Iechyd gymryd 30 diwrnod i ryddhau arian yn dilyn derbyn yr anfoneb. Mae rhai eraill yn cymryd llawer mwy. Am y rheswm hwn, meddylwch yn ofalus am y ffordd orau o ddosrannu'r ffi gomisiwn fel bod arian ar gael pan fydd ei angen er enghraifft, i dalu gwneuthurwyr, cwmnïau cludo ac yn y blaen. Ni fydd y rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd yn talu Artistiaid ymlaen llaw cyn y gwariant gwirioneddol, gan dalu'n unig am yr hyn sydd wedi dod i law neu'r hyn y gellir rhoi tystiolaeth am yr hyn a wariwyd. Am y rheswm hwn, gall y bydd angen i chi dynnu ffotograffau o'r gwaith yr ydych yn anfonebu amdano a chadarn-

hau gydag is-gontractwyr eu bod yn hapus i gael eu talu ar ôl i chi dderbyn y tâl. Mae'n arfer da darparu anfonebau sy'n datgan yn glir y gwaith a gyflawnwyd (h.y. ffioedd yn erbyn y gwaith a gyflawnwyd) ac sy'n gwahanu ffigurau net o TAW oddi wrth y ffigurau sy'n cynnwys TAW fel y gall TAW gael ei adennill gan y Bwrdd Iechyd lle mae hynny'n briodol – bydd cyflwyno anfonebau manwl gywir hefyd yn osgoi oedi talu.



Aerial installation at Nevill Hall Hospital, lead artist: Arts Alive Wales and Gwent Arts in Health, image courtesy of Gwent Arts in Health.

Rhaglen

Bydd y rhaglen gelf yn unigryw i bob comisiwn, ond bydd yna gyfnod dylunio (a all ymgorffori gweithdai ymarferol a'r paratodau ar eu cyfer os yw hynny'n addas) a chyfnod cynhyrchu a gosod.

Mae datblygiadau cyfalaf yn weithgareddau cymhleth gwerth miliynau o bunnoedd â ganddynt amserlenni clir, cyllidebau a thargedau sy'n gymharol sefydlog. Os caiff y rhaglen adeiladu ei gohirio, gellid cael cosbau â allai fod yn gostus iawn ac yn rhywbeth i'w osgoi. Mae'n bwysig felly, bod gan y comisiwn celf amserlen glir o ddigwyddiadau a dyddiadau cau penodol y cytunwyd arnynt ac a gaiff eu cynnwys yn y rhaglen adeiladu cyfalaf. Gall gweithiau celf a gomisiynir yn ystod cyfnod cynnar cynllunio ac adeiladu arwain at waith celf sy'n cael ei integreiddio i mewn i ffabrig yr adeilad e.e. lloriau, muriau, gwydriad. Efallai y bydd angen i weithiau celf eraill gynnwys sylfeini, cyflenwad dŵr a gwifriad trydan i mewn i raglen adeiladu contractwyr a bydd angen cynnal trafodaethau i gytuno ar yr amser gorau i gyflawni'r gwaith a mynd ag ef i'r safle, ei osod ac yn y blaen yn dibynnu ar leoliad a natur y gwaith celf. Byddwch yn ofalus i wirio'ch contract am gyfrifoldebau'r rhaglen. Gallech fod yn atebol am gostau cosb sylweddol os na fydd eich gwaith yn barod mewn pryd, gan ohirio rhaglen adeiladu'r contractwr.

Y broses ymgynghori

Mae mecanweithiau ar gyfer ymgynghori a chymeradwyo cynigion yn bwysig. Fel arfer caiff panel, tîm prosiect neu grŵp llywio ei greu i drafod a chymeradwyo cysyniad a chynigion terfynol er mwyn i gomisiynau fedru symud drwy'r cyfnod dylunio at y cyfnod cynhyrchu. Bydd aelodau'r panel fel arfer yn cael eu dewis gan y comisiynydd ac yn aml bydd hyn yn golygu rhai neu bob un o aelodau'r panel cyfweld. Mewn byd delfrydol, bydd rhai o aelodau'r panel yn deall elfen ymarferol y cynnig, ac eraill yn ymddiddori yn ansawdd y syniad a'i berthynas ag ethos, estheteg a diben yr adeilad newydd. Gall y comisiynydd ymgynghori â chynulleidfa ehangach neu efallai y bydd yn gofyn i chi wneud hyn drwy, er enghraifft, fforymau cyhoeddus neu weithdai ymarferol. Os nad ydych yn deall yn iawn y modd y mae gwybodaeth am eich cynigion yn cael ei rannu, gofynnwch.


Protocols

Bydd y polisiau a'r protocolau sy'n berthnasol i bob comisiwn yn dibynnu i raddau ar ei natur. Mae'r math o bethau sydd ag angen i Artistiaid wybod amdanynt/gweithredu arnynt ymlaen llaw yn cynnwys:

- Cyfathrebu ag eraill – dylai eich person cyswllt allweddol roi arweiniad i chi yn hyn o beth.
- Protocolau clinigol e.e. hylendid, mynediad.
- Beth i wneud a pheidio ei wneud ar y safle adeiladu. (Bydd rhaid i chi gymryd rhan mewn sesiwn a fydd yn eich helpu i ymglyfuno â'r safle a rhaid i chi ufuddhau i brotocolau'r safle adeiladu. e.e. drwy wisgo dillad y safle a dilyn rheolau iechyd a diogelwch y safle ac y y blaen).
- Protocolau moesol e.e. gwiriadau DBS a chaniatâd i dynnu lluniau.
- Beth i wneud a pheidio ei wneud ar wardiau a mannau clinigol eraill e.e. defnyddio offer a chemegau mewn dull diogel.
- Parchu cleifion e.e. cyfrinachedd, ymddygiad cyffredinol.
- Is-gontractio e.e.rhoi gwybod i'r comisiynydd os bydd eraill yn rhan o'r dylunio, y cynhyrchu neu'r broses osod.

Gofod

Fel arfer, disgwylir i Artistiaid sy'n gweithio i gomisiwn ddarparu eu gofod stiwdio eu hunain. Os bydd sesiynau cyfranogol yn cael eu cynnwys yn y comisiwn, efallai y bydd gofod ar gael ar gyfer cynnal gweithdy ond mae'n debygol y bydd yr Artist yn gorfod talu unrhyw gostau'n codi o logi stafell neu ddeunyddiau yn gorfod a byddai angen cynnwys hyn yn y cynlluniau cyllideb.



Aluminium relief wall panels, David Mackie, Heather Parnell, and Andrew Rowe, Ysbyty Cwm Rhondda, image courtesy of the artists.

Cyfnod 1 Dylunio

3.3 Yn ystod cyfnod y comisiwn

Mae yna fel arfer ddau gyfnod cydnabyddedig mewn comisiwn:

Drwy broses negodi, bydd y cyfnod cyntaf hwn yn golygu cynhyrchu a chyflwyno cynnig am gysyniad a dylunio terfynol, costau rhaglenni ar gyfer cynhyrchu gwaith celf, gwaith adeiladu paratoadol cysylltiedig â gosod. Gall y ymgynghori cyhoeddus a gweithdai cyfranogol fod yn rhan o'r cyfnod hwn. Bydd yn gorffen pan fydd eich cynnig wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer ei gynhyrchu.

Pethau i'w hystyried:

Cynigion

Mae'n ddefnyddiol cynhyrchu maquettes, darluniau a samplau a fydd yn galluogi'r panel i weld yn glir beth yw eich bwriad ynghyd â rhesymeg gadarn. Dylai'r cynnig roi'r hyder i'r panel i symud ymlaen, gan wybod eich bod wedi ymchwilio'r syniad, y deunyddiau, dulliau cynhyrchu, iechyd a diogelwch, rheoli haint (gweler pennod 2), rheoliadau tân, paratoi'r safle, costau, amserlenni, ymagwedd tuag at osod, cynnal a chadw, a lleihau/dileu costau'n ymwneud â deunyddiau traul yn y dyfodol.

Cyllideb

Ni ddylai'r costau y byddwch yn eu cynnig fod yn fwy na'r ffi sydd ar gael a dylai gynnwys pob agwedd a fanylir yn y briff a'r contract. Mae'n beth cyffredin i ffioedd comisiwn gynnwys holl gostau dylunio, cynhyrchu a gosod, yn cynnwys is-contractwyr cysylltiedig, gwaith adeiladu a chyfrifiadau peirianwyr. Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, edrychwch i weld a gafodd hyn ei gynnwys neu ei eithrio yn ffi'r comisiwn. Ceisiwch wneud rhestr o'r holl gostau y gallwch eu rhagweld mewn gwneud y gwaith celf a chynnwys trefniadau wrth gefn, i gynllunio ar gyfer yr hyn na ellir ei ragweld. Meddyliwch am y meysydd lle gallai newid mewn costau ddigwydd e.e. cludiant, costau deunyddiau, gwneuthuriad.

Amserlen

Dylai'r rhaglen arfaethedig ar gyfer cynhyrchu a gosod gael ei negodi'n unol â'r brif raglen adeiladu. Ceisiwch restru'r holl dasgau sy'n berthnasol i greu'r gwaith celf a mynd ag ef i'r safle. Mae'n syniad da cynnwys mwy o amser nag a gredwch y bydd ei angen, mae pethau'n aml yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd, mae rhai pethau tu hwnt i'ch rheolaeth ac nid yw'n anghyffredin i raglen gelf lithro tra'n aros am dâl neu i benderfyniad gael ei wneud.

Gweithdai cyfranogol

Os yw ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan o'r prosiect, mae'n bwysig eich bod yn llwyddo cynnal gweithdai llwyddiannus. Ystyriwch nifer y cyfranogwyr, ystod oedran, gallu, hyd, y dasg a osodir ac amcanion y gweithgaredd – yr hyn yr ydych chi a'r comisiynydd eisiau ei weld yn deillio o weithdai ymarferol (Gweler pennod 5 am fwy o wybodaeth ar gyfranogiad).

Yn y cyfnod hwn o'r comisiwn, byddwch yn gwneud ymdrech i lunio neu arolygu gwneuthuriad eich gwaith/gweithiau celf. Wrth i'r trafodaethau terfynol am gyflwyno a gosod y gwaith ar y safle gael eu cynnal, gofynnir i chi gyflwyno asesiad risg a datganiad dull i sicrhau ymddygiad diogel.

Pethau i'w hystyried:

Ymweliadau â'r safle

Os dymunwch fynd i'r safle i dynnu ffotograffau, mesuriadau ac yn y blaen, bydd angen i chi drefnu hyn drwy eich person cyswllt allweddol. Mae'n debygol y bydd eich ymweliad cyntaf yn golygu ymgyfarwyddo â iechyd a diogelwch a bydd yn ofynnol i chi ddefnyddio PPE (offer diogelwch personol) addas ar gyfer natur a chynnydd yr adeilad, e.e. het galed, sgidiau a blaenau dur neu sliperi (yn dibynnu ar gyfnod y rhaglen/lleoliad adeiladu), a siaced hi-vis. Bydd y contractwr yn darparu'r offer hwn yn aml.

Mynediad i'r safle a gosod

bydd pryd a sut y byddwch yn dod â'ch gwaith celf i'r safle'n dibynnu ar nifer o ffactorau megis maint, pwysau, breuder, a'r man a gynigir ar gyfer gosod y gwaith celf. Meddyliwch am y ffordd orau o gwblhau'r agwedd hon o'r prosiect yn llwyddiannus a chost effeithiol. Er enghraifft, mwy na thebyg y byddai'n well delio â grwydriad arbennig pan fydd y ffenestri'n cael eu gosod yn yr

Phase 2 Production and Installation

adeilad. Efallai y bydd hefyd yn fwy cost effeithiol ac ymarferol i fynd â darnau mawr i mewn i gyrtiau mewol yn gynnar yn y rhaglen adeiladu, neu ddarn wrth ddarn, yn hytrach na chael craen i gludo gwrthrychau cyfan dros doeau.

Gwaith celf sy'n addas ar gyfer y diben

Mae'n rhaid i'r gwaith celf a gynhyrchir gennych ateb galwadau'r ddeddfwriaeth, rheoliadau a gofynion y briff a'r contract. Bydd union ofynion yn amrywio o gomisiwn i gomisiwn ond ymhlith rhagolygon cyffredin disgwylir i'r gwaith fod o ansawdd uchel, yn rhad i'w gynnal a'i gadw, yn hawdd ei lanhau, anodd ei fandaleiddio a'i ddwyn, yn wydn a diogel heb unrhyw rwymiadau. Bydd rheoli haint yn fater o bwys arbennig pan fydd gweithiau celf yn cael eu gosod o dan do ac mae clefyd Legionnaires o bryder mawr iawn os bydd dŵr yn nodwedd o'ch gwaith celf.

3.4 Cwblhad

Nid yw'r comisiwn wedi ei gwblhau'n dechnegol nes iddo gael ei lofnodi gan berson y cytunwyd arno, eich person cyswllt allweddol mwy na thebyg. Bydd y person hwn yn ymweld â'r safle gyda chi a byddwch yn trosglwyddo'r gwaith ar ôl i chi gyflwyno anfoneb am y ffi derfynol

Pethau i'w hystyried:

Eiddo deallusol (IP) – Mae'n beth cyffredin i Artistiaid gytuno i ddelweddau o'r gwaith celf gael eu defnyddio gan y comisiynydd, ond oni bai bod y contract yn dweud yn wahanol, y person a greodd y gwaith celf, sef yr Artist, fydd yn dal yr hawlfraint.

Cynnal a chadw a defnyddiau traul – er mwyn cadw'r gwaith celf mewn cyflwr da, gofynnir i chi gynhyrchu rhaglen cynnal a chadw ac i gadw unrhyw gostau perthnasol mor isel â phosibl.

Cyfnod gwarant – Fel arfer gosodir cyfnod gwarant o 12 mis ar y gwaith celf. Cyfrifoldeb yr Artist fydd gwneud iawn am unrhyw nam a ymddengys yn y cyfnod hwn. Weithiau bydd y comisiynydd yn atal rhan fach o'r ffi yn ystod y cyfnod hwn.

3.5 Rhestr o'r termau allweddol

PPE Cyfarpar Diogelwch Personol – offer diogelwch personol megis hetiau caled, goggles, masgiau, sgidiau.

Cynllunio Cyfalaf – cyfarwyddiaeth o fewn y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am gynllunio, datblygu a rheoli cyflwyniad cynlluniau adeiladu newydd a dodrefnu eiddo'r Bwrdd Iechyd.

Comisiwn – Hurio a thalu am ddarn o waith celf sy'n cael ei greu.

Gwaith celf cyhoeddus – Gwaith celf sy'n cael ei ddylunio, ei gynhyrchu a'i osod mewn man cyhoeddus.

Maquette – model tri dimensiwn, graddfa fach, o'r gwaith celf arfaethedig.

Ymgysylltiad â'r cyhoedd – Rhyngweithio rhwng yr Artist a defnyddwyr gofal iechyd neu'r gymuned ehangach fel rhan o'r broses ymgynghori. Rhaglen cynnal a chadw – dogfen sy'n cynnwys gofynion cynnal a chadw sydd angen ymgymryd â nhw i sicrhau bod y gwaith celf yn parhau mewn cyflwr da.

Amserlen talu – rhaglen o ddyddiadau pan fydd symiau penodol o arian yn cael eu tynnu i lawr i dalu anfoneb.

Comisiynydd – y sefydliad sy'n penodi'r Artist

Ymgynghori – Trafod syniadau a chynigion gydag eraill.

Eiddo Deallusol (IP) – Eiddo sy'n dod i fodolaeth o feddwl creadigol gwreiddiol.

Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus – math o yswiriant atebolrwydd sy'n rhoi iawndal a chostau cyfreithiol yn erbyn hawliadau am golled neu anaf gan gwsmer neu aelod o'r cyhoedd.

Yswiriant indemniad proffesiynol – math o yswiriant atebolrwydd ar gyfer amddiffyn busnes/unigolyn yn erbyn hawliad cleient am golled neu ddifrod yn dilyn cyngor neu wasanaeth gwael..

Astudiaeth Achos



John Nicholas,
musician, image courtesy
of Prue Thimbleby.

3.6 Cerddoriaeth Fyw Nawr

Mae'r adran hon wedi ei gosod yn y fan hon gan ei bod yn berthnasol i'r modd y mae Artistiaid perfformio megis cerddorion yn cael eu comisiynu i berfformio eu cerddoriaeth er lles cleifion.

Mae yna dystiolaeth gynyddol sy'n dangos manteision cerddoriaeth mewn ysbytai ac mae yna nifer o sefydliadau sy'n darparu cerddorion perfformio wedi eu hyfforddi neu â ganddynt brofiad mewn gweithio mewn amgylchedd Gofal Iechyd.

Y ddau sefydliad sy'n weithgar yng Nghymru yw:

Cerddoriaeth mewn Ysbytai - <http://www.musicinhospitals.org.uk/about/wales/>

Cerddoriaeth Fyw Nawr - <http://www.livemusicnow.org.uk/wales>

“Fy enw yw John Nicholas, rwy'n 24 mlwydd oed ac rwy'n gerddor sy'n gweithio o Gaerdydd. Rwy'n gweithio'n gyson, yn bennaf drwy chwarae mewn bariau a lleoliadau cerdd ond rwyf hefyd yn gweithio i elusen o'r enw Cerddoriaeth Fyw Nawr, sy'n rhoi cyfle i mi berfformio mewn amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd.

Deuthum i Ysbyty Treforys ar 2 Medi i chwarae i gleifion ar ward Dialysis Arennol. Aethpwyd â mi i nifer o wahanol ystafelloedd a pherfformiais i amrywiaeth o gleifion, hen ac ifanc. Roedd gen i gasgliad o ganeuon i'w canu ond roeddwn hefyd yn ymateb i geisiadau er mwyn ceisio gwneud y perfformiad yn fwy personol i'r cleifion.

Dyna'r tro cyntaf i mi wneud unrhyw fath o berfformio mewn ysbyty felly doeddwn i ddim yn gwybod beth i ddisgwyl. Mi wnes baratoi set o ganeuon hyblyg gan adael digon o le ar gyfer creu'n fyrfyfyr wrth i mi ddysgu'n fuan bod hyblygrwydd yn allweddol yn y math hwn o berfformio. Yn ystod fy mharatodau, defnyddiais yr hyfforddiant yr oeddwn wedi ei gael gan Cerddoriaeth Fyw Nawr.

Gan mai hwn oedd fy nhro cyntaf i chwarae ar ward (a fy nhro cyntaf yn Ysbyty Treforys!), roedd yn help enfawr bod y Cydlynnydd Celfyddydau yno i ddangos pob stafell i mi, i fy nghyflwyno i aelodau staff perthnasol a nyrsys, ac i ddweud y gwir, llwyddodd hyn i dawelu fy nerfau.

Roedd yr adborth wrth y cleifion yn gadarnhaol. Roedd yna lawer o gleifion diolchgar a rhai oedd yn wirioneddol frwdfrydig ac yn gofyn i mi chwarae un gân ar ôl y llall. Roedd yna un claf oedd wedi gwirioni – dywedodd ei bod wir wedi mwynhau'r profiad ac mae'r perfformiad oedd y peth gorau a ddigwyddodd yn ystod ei chyfnod o 12 wythnos yn yr ysbyty.

Roeddwn wrth fy modd gyda'r profiad, roedd yn ffrind cael mynd ar y ward ac roeddwn yn teimlo fy mod, yn fy ffordd fy hun, yn gwneud rhyw fath o wahaniaeth – roedd yn ffrind i fedru peri i gleifion wenu.”

Cerddoriaeth Fyw Nawr yw'r brif elusen datblygiad a gweithgaredd estyn allan i gerddorion ym Mhrydain, sy'n darparu profiadau cerddoriaeth fyw neilltuol i bobl â mynediad cyfyng i ddarpariaeth celf o safon uchel, oherwydd anabledd, salwch neu anfantais gymdeithasol. Mae cyfranogwyr yn elwa o'r manteision therapiwtig, cymdeithasol ac emosiynol drwy ymgysylltu â cherddoriaeth fyw – profiad sy'n trawsnewid ac yn cyfoethogi bywyd. Mae Cerddoriaeth Fyw Nawr yn gweithio ledled y 22 sir gan ddarparu dros 250 o berfformiadau bob blwyddyn.

www.livemusicnow.org

“
Roeddwn yn teimlo fy
mod, yn fy ffordd fy
hun, yn gwneud rhyw
fath o wahaniaeth
”

4 Artistiaid Preswyl

Mae'r bennod hon yn delio a rôl benodol yr Artist Preswyl.

Caiff Artistiaid Preswyl gcontractau am gyfnod penodol o amser (fel arfer misoedd yn hytrach nag wythnosau neu ddyddiau), i gynhyrchu gwaith mewn ymateb i amgylchedd yr ysbyty. Mae'r canlyniad yn aml yn agored ac amhendant ar y dechrau a bydd comisiwn Artistiaid yn seiliedig ar eu harfer Artistig unigol a'u gwaith yn y gorffennol.

Diben

Fel rhan o gyfnod preswyl disgwylir i'r Artist ryngweithio gyda'r ysbyty, y bobl sy'n ei ddefnyddio neu'r gweithgaredd sy'n digwydd yno.

Gallai Artist preswyl:

Archwilio mater penodol, i'w ddwyn i olwg y cyhoedd a hybu ymwybyddiaeth.

Paru Artist gydag ymchwilydd neu adran dechnolegol yr ysbyty gan gyfuno celf a gwyddoniaeth fel catalydd ar gyfer dull newydd o feddwl.

Gweithio gyda staff i wella gwasanaethau neu adeiladu gwaith tim.

Gweithio gyda chleifion a'u teuluoedd i gynnig llais iddynt, cyfle i rannu profiadau neu gyfle cyfranogol i helpu i greu gwaith celf newydd ar gyfer yr ysbyty.

Gofod Stiwdio

Bydd yr ysbyty'n aml yn neilltuo gofod i'r Artist ei ddefnyddio fel stiwdio. Gall ansawdd a maint y gofod hwn amrywio i raddau helaeth o fod yn landin ar ben y grisiau i ddefnydd neilltuedig o bortacabin. Weithiau fel rhan o'r briff, mae'r gofod yn ardal agored i aelodau'r cyhoedd, cleifion a staff fel y gallant weld Artistiaid wrth eu gwaith a dilyn eu cynnydd. Bydd y math o ofod gwaith yn dibynnu ar natur y cyfnod preswyl.

Deilliannau

Yn aml mae cyfnod preswyl yn ymwneud mwy â'r broses o ryngweithio gyda'r ysbyty na chynhyrchu deilliannau diriaethol er y gall y ddau ddigwydd fel canlyniad i gyfnod preswyl. Os caiff gweithiau celf ffisegol eu cynhyrchu gall y bydd yn ofynnol i'w gadael ar ôl. P'un ai fydd y canlyniadau diriaethol yn aros ar ôl neu'n gadael gyda'r Artist, dylai eiddo deallusol y gwaith a gynhyrchwyd aros gyda'r Artist oni chytunir fel arall. Gellir cytuno ar y manylion hyn ymlaen llaw a'u hamlinellu yn y contract er mwyn eglurder.

Diogelwch

Gweler penodau 2, 5, a 6 am asesiad risg, diogelu cleifion a materion moesegol.

Mae hefyd yn bwysig bod yna rwydwaith cefnogaeth yn ei le ar gyfer yr Artist yn cynnwys sesiynau ôl-drafodaeth fel y gall unrhyw heriau ac anawsterau gael eu trafod.

Bas relief wall panels,
Kathy Dalwood,
Ysbyty Cwm Cynon,
image courtesy of
Celfwaith.





'Gwanwyn' a poetry and textile project at Ysbyty Eryri, Caernarvon, artist and photographer Nancy Evans.

Ail-lunio ein Hunain

Ebrill 2014 – Hydref 2015

Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg

Prosiect a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru oedd 'Ail-lunio ein Hunain', yn archwilio ail-lunio'r fron drwy storïau, bywydau a phrofiadau cleifion a staff yn Ysbyty Treforys, Abertawe.

Fel rhan o'r cyfnod Artist Preswyl gweithiodd Prue Thimbleby, Rhian Solomon a Sarah Wright – dwy Artist ac Anthropolegydd clinigol – gyda chlinigwyr a chleifion o Ysbyty Treforys – gan wrando, siarad, dehongli ac ail-lunio deialogau manwl a naratifau'r bobl a wnaethant gyfarfod â nhw. Sarah Wright oedd arweinydd gwaith ymchwil y prosiect – a ofynnodd y cwestiwn: 'A yw rhoi cyfle i'r claf recordio'r hyn y dymunant ei ddweud wrth yr ymgynghorydd a chyflwyno hwn ar gyhwyn yr ymgynghoriad yn gwella'r canlyniadau?'

Arweiniodd Rhian Solomon weithdai celf gyda'r cleifion, gan hwyluso gweithiau creadigol mewn ymateb i'w profiadau. Gweithiodd gyda Julianna Sissons i greu model tecstil sydd yn awr yn cael ei ddefnyddio yn y clinig ail-lunio'r fron i ddangos y gwahanol ddewisiadau ar gyfer llawdriniaeth. Gweithiodd Prue Thimbleby gyda myfyrwyr ffotograffiaeth o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant gan greu wyth fideo o storïau cleifion.

Uchafbwynt y prosiect oedd symposiwm ac arddangosfa lwyddiannus iawn a ddangosodd ganlyniadau'r ymchwil, casgliad newydd o waith gan Rhian Solomon a storïau digidol wedi eu hadrodd gan y cyfranogwyr a gymerodd ran yn y prosiect. Cynhaliwyd yr arddangosfa yn yr ysbyty cyn symud i oriel Dinefwr yn y Brifysgol.

Ar ôl i'r prosiect ddod i ben enillodd un o'r fideos a wnaed gan Rhian Solomon a Belinda Cotton o dîm darluniadau meddygol ABMU wobr John Corney am y fideo anghlinigol orau yng Nghynhadledd Darluniadau Meddygol y Deyrnas Unedig.



5 CELFYDDYDAU CYFRANOGOL MEWN YSBYTAI

5.1 Cyn i chi gyrraedd yr ysbyty

5.2 Cyflwyno eich prosiect

5.3 Ar ôl y sesiwn

5.4 Gweithio'n ddiogel ar y ffin therapiwtig

Mae'r bennod hon yn edrych ar weithio mewn dull cyfranogol o fewn ysbyty, wedi ei ysgrifennu gan Kira Withers-Jones a Nancy Evans ac yn seiliedig ar eu profiadau hwy eu hunain o redeg gweithdai mewn wardiau ysbytai.

Gall rhyngweithio ac ymgysylltu â chleifion, staff neu ymwelwyr mewn gweithgaredd creadigol gael manteision pellgyrhaeddol sy'n mynd tu hwnt i'r gweithgaredd ei hunan, ond mae ysbytai'n amgylcheddau unigryw, a all arwain at sefyllfaoedd cymhleth. Gobaith y bennod hon yw hybu ymwybyddiaeth o rai o'r heriau hyn, i helpu i baratoi Artistiaid ar gyfer gweithio mewn amgylchedd ward.

Manteision

Mae yna fanteision niferus yn deillio o weithio mewn ffordd gyfranogol o fewn ysbyty:

- Mae cleifion yn diflasu a gallant fod yn awyddus i ryngweithio â gweithgaredd neu â pherson heb gysylltiad â'u gofal meddygol.
- Gall y bydd cleifion hefyd yn bryderus neu mewn poen a gall gweithgaredd dynnu eu meddwl oddi ar eu pryderon.
- Gall gweithgareddau creadigol hybu hunan-barch pobl a'u gwneud i deimlo'n ddynol eto yn hytrach na bod yn ddim mwy na chlaf.
- Efallai bod claf yn ymroi i wireddu gweithgareddau sy'n normal iddyn nhw, ac felly mae ymgysylltu â gweithgaredd newydd creadigol yn medru gwneud iddynt deimlo'u bod wedi cyflawni rhywbeth a gwneud iddynt deimlo'n fwy grymus.
- Gall celfyddydau cyfranogol wella awyrgylch ward.
- Gall unrhyw waith celf gweledol a wnaed yn ystod gweithgaredd wella golwg ffisegol y ward yn yr hirdymor.

5.1 Cyn i chi gyrraedd yr ysbyty

Ymweliad Safle

Os yn bosibl, ewch i'r ysbyty ar ymweliad safle cyn eich sesiwn cyntaf gyda chyfranogwyr. Gall dod o hyd i'ch ffordd o gwmpas ysbyty fod yn anodd, a bydd ymweliad safle'n eich helpu i ddod i adnabod y lle a datrys unrhyw faterion ymarferol fel pa le i barcio, a sut i gyrraedd y ward yr ydych yn gweithio arni.

Gallwch ddarganfod a oes yna rywle i chi gadw eich eiddo personol tra'ch bod yn gweithio, pa doileddau y gallwch eu defnyddio a ble fyddwch yn cynnal eich gweithgareddau. Oes yna ofod addas a digon o gyfleusterau ar gyfer eich gweithgaredd neu a oes angen addasu eich cynlluniau yn ôl y galw? Os oes angen, oes yna fynediad i sinc, llungopiwr, a theleffon ac yn y blaen.

Cwrdd â'r staff

Bydd cael eiriolydd ymhlith aelodau'r staff sy'n gefnogol i'ch prosiect yn helpu popeth i redeg yn esmwyth. Os yn bosibl sicrhewch mai'r person hwn yw eich pwynt cyswllt cyntaf yn yr ysbyty bob tro yr ydych yno ar ymweliad neu os nad yw hynny'n bosibl darganfyddwch pwy fydd y pwynt cyswllt yn ystod eu habsenoldeb. Mae ymweliad safle'n gyfle gwych i chi gyfarwyddo â staff y ward ac iddynt hwythau gyfarwyddo â chi; os oes gan bobl syniad beth i'w ddisgwyl byddant yn rhoi mwy o groeso i chi. Ar y nodyn hwn gallech osod poster i hybu ymwybyddiaeth am yr hyn a wneuch a phryd y bwriadwch ei wneud.



Tra'n ymweld â'r ward, ceisiwch ddarganfod cymaint â phosibl am y ffordd y mae'n cael ei rhedeg o ddydd i ddydd; rhai pethau defnyddiol i'w gwybod yw:

oriau ymweld, amserau bwyd a newid staff? Oes yna adegau prysurach a thawelach ar y ward?

Ymgynghori



Gallwch hefyd ddefnyddio'r amser hwn i ymgynghori â staff a chleifion ar y gweithgaredd yr ydych yn ei gynllunio; gall y bydd ganddynt wybodaeth werthfawr a fydd yn llywio'ch prosiect; byddant hefyd yn teimlo eu bod yn rhan o'r prosiect ac felly'n fwy tebygol o'ch cefnogi.

“Dysgais pa mor bwysig y gallai'r cyfnod ymgynghori fod yn ystod fy nghyfnod preswyl cyntaf mewn ysbyty. Drwy ymgynghori â'r staff deuthum i wybod bod yna goridor gwag rhwng ward y plant a'r theatr. Awgrymwyd thema'n ymwneud â breuddwydion gan un o'r cleifion i'w hannog i feddwl yn gadarnhaol am gael anaesthetig. Mae'r gwaith celf 'taith freuddwyd' a grëwyd fel canlyniad i hyn yn ymestyn ar hyd y coridor 50m, gan ddangos 80 argraffiad tecstil gan gleifion, brodyr a chwiorydd y cleifion a phlant ysgol leol”.

Nancy.

Y grŵp cleifion

Os oes grŵp cleifion penodol ar y ward yr ydych yn gweithio arni gwnewch beth ymchwil i ddod i wybod cymaint ag y gallwch amdanynt cyn i chi gychwyn. Gallant fod ag anghenion arbennig, cyfyngiadau neu anawsterau a allai gael effaith ar y gweithgaredd yr ydych yn ei gynllunio. Mae'n bwysig iawn hefyd eich bod yn cofio bod pob un o'r cleifion yn unigolyn â diddordebau ac anghenion unigol; bydd gwybod mwy am eu cyflwr yn eich helpu i fod yn empathig, ond nid yw eu salwch yn diffinio pwy ydynt mewn unrhyw ffordd.

Ailystyriwch eich gweithgaredd

Ar ôl ymweld â'r ward, ymgynghori â'i defnyddwyr a gwneud ymchwil am eich grŵp cleifion, mae hon yn adeg dda iawn i ddechrau ailystyried y gweithgaredd yr ydych yn ei gynllunio. A fydd yn gweithio yn y gofod? A wnaethoch ddarganfod unrhyw beth am y rhai sy'n defnyddio'r ward a allai siapio'r hyn a wnewch? Cofiwch bob amser nad oes dim byd mewn ysbyty'n hawdd ei ragweld, yn arbennig y nifer o gleifion y bydd yn rhaid i chi weithio gyda nhw ac am ba hyd. Mae ymagwedd hyblyg hawdd ei haddasu'n angenrheidiol.

Ysgrifennwch gynllun prosiect

Ysgrifennwch gynllun penodol ar gyfer eich prosiect gan ddefnyddio amcanion CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol). Bydd hyn yn helpu i'ch cadw ar y trywydd iawn o safbwynt amser a chyllid gan helpu pobl eraill i wybod beth yw eich cynlluniau. Bydd yn helpu i reoli disgwyliadau yn ogystal â rhoi sylfaen i'ch gwerthusiad ar ddiwedd y prosiect.

Paratodau Ymarferol

Trafodir yr holl faterion ymarferol ym Mhennod 2

5.2 Cyflwyno eich prosiect

Pan fyddwch yn cyrraedd yr ysbyty sicrhewch eich bod yn mynd i ymweld â'r person cyswllt allweddol fel eu bod yn gwybod eich bod yn yr ysbyty. Efallai y byddant hefyd yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau diweddar neu wybodaeth yn ymwneud ag amser y dylech fod yn ymwylbodol ohono.

Wrth i chi fynd i mewn ac allan o bob ward gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y cyngor ar reoli haint a rhoi gwybod iddynt eich bod chi yno. Os nad oes grŵp o gleifion wedi ei ddynodi i chi ar gyfer gweithio gyda nhw ewch at y nyrs sy'n rheoli'r ward cyn gynted ag y byddwch wedi cyrraedd. (Gweler Pennod 1 am bwy yw pwy a gwisgoedd). Byddant wedyn yn rhoi gwybod i chi os bydd yna unrhyw ardaloedd neu gleifion arbennig y byddai'n well i chi weithio gyda nhw, neu os oes yna unrhyw fannau lle na ddylech fynd.

Mae wardiau'n lleoedd prysur iawn ac yn aml bydd staff yn dal i weithio o'ch cwrmpas pan fyddwch gyda'r cleifion. Weithiau bydd meddyg eisiau cael cip cyflym ar siart neu efallai y bydd person sy'n glanhau'n symud heibio i chi gyda mop, ond ar adegau eraill bydd yn rhaid i chi adael claf gan ei bod yn amser iddynt gael bath cyn mynd i'r gwely, neu ryw dasg arall sydd angen ei chyflawni. Os oes yna argyfwng meddygol sefwch o'r neilltu a gadewch i'r staff meddygol wneud eu gwaith.

Mae'n bwysig bod yn drefnus ond yn hyblyg a gallu newid eich cynlluniau ar fyr rybudd. Dylech ymddwyn mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Gwisgwch yn addas ar gyfer y gwaith y byddwch yn ei wneud a'r amgylchedd lle byddwch yn gweithio. Gweler cyngor ar wisg a rheoli haint ym Mhenod 2.

Heriau

Efallai y byddwch wedi dod ar draws staff sy'n llai gwerthfawrogol nag eraill am y defnydd a wneir o gelf mewn wardiau. Neu efallai bydd cleifion ac ymwelwyr yn gofyn am gyllid prosiectau celf ac a ellid gwario'r arian yn well ar rywbeth arall. Mae'n werth paratoi ar gyfer y cwestiynau hyn, a gwybod sut y byddwch yn egluro'r hyn yr ydych yn ei wneud. Bydd llawer o bobl yn gwerthfawrogi'r gwaith yr ydych yn ei wneud ond ni fydd pawb yn deall y rhesymeg wrth ei wraidd.



Top: Storytelling with Steve Killick in Swansea Toy Library project.

Above: Dance with Parkinsons in Gorseinon project led by Tan Dance.

Mae cael taflen wybodaeth am y prosiect – lle y cychwynnodd a'r canlyniadau arfaethedig – yn werthfawr iawn. Rhowch fanylion cyswllt ar y daflen i'r rhai hynny sydd eisiau gwybod mwy, a gall cyfle i roi adborth helpu i osgoi anghydfod posibl.

Ymatebion

Bydd cleifion yn ymateb mewn gwahanol ffyrdd i'ch presenoldeb a'r gwaith a wnewch gyda nhw. Efallai y bydd rhai pobl yn cynhyrfu a gall hyn fod yn anodd iawn ei ddeall. Gallai'r ffaith bod rhywun sy'n wahanol o'u cwrmpas neu rywbeth gwahanol yn digwydd beri iddynt deimlo eu bod yn colli rheolaeth, neu efallai eu bod yn gynhyrfus p'run bynnag ac nad oes unrhyw gysylltiad rhyngddo â'r hyn yr ydych chi yn ei wneud. Weithiau bydd celf yn ennyn emosiynau ac efallai y bydd claf yn dechrau crio. Gweler isod ganllawiau ar gyfer gweithio'n ddiogel ar y ffin therapiwtig.

Os ydych yn ansicr am unrhyw beth, yna mae'n well gofyn. Yn aml efallai bydd nyrs yn ymateb drwy roi'r argaff bod ymddygiad claf yn gwbl normal ond os ydych yn bryderus – gofynnwch i rywun.

“Pan oeddwn yn gwneud interniaeth gyda cherddorion a chantorion ar wardiau ysbyty gwelais bob math o ymateb, yn amrywio o bob un o'r cleifion yn ymuno i ganu gyda'i gilydd i ddynes yn dweud wrthym ein bod 'yn mynd ar daith mewn tacsï ond bod yn rhaid i ni beidio â gyrru drwy ganol Llundain.' Yr ymateb mwyaf cyffrous oedd oddi wrth glaf a oedd, ar yr edrychiad cyntaf, yn ymddangos fel pe bai'n methu gwerthfawrogi yr hyn oedd yn digwydd o'i chwmpas. Roedd ei phen yn rowlio o un ochr i'r llall ac roedd y rhan fwyaf o'i hwyneb wedi ei guddio gan fasg ocsigen ond yn araf, ar ôl un neu ddwy o ganeuon, fe wnaeth droi ei phen tuag at gyfeiriad y gerddoriaeth ac yna sylweddolais ei bod hefyd yn symud ei gwefusau ac yn llefaru'r geiriau – ymateb hynod syml ond a wnaeth fy helpu i sylweddoli yr hyn y gall dwyn y celfyddydau i mewn i ysbytai ei olygu i gleifion.” **Kira**



5.3 Ar ôl y sesiwn

Arfer Myfyriol

Cymerwch amser i fyfyrion ar bob sesiwn: beth aeth yn dda? beth wnaeth eich synnu? pa syniadau a gawsoch am y sesiwn nesaf? Ysgrifennwch nodiadau ar eich myfyrio mewn dyddlyfr i'ch helpu i barhau i ddysgu.

Gofalu am eich hunan

Byddwch yn wynebu golygfeydd, synau ac aroglau anarferol, a gallech deimlo bod digwyddiadau yn effeithio arnoch sy'n gyfarwydd i staff yr ysbyty, a heb fod yn amharu arnynt. Mae'n beth da i fod wedi paratoi cystal â phosib, i gael ymagwedd hyblyg, a gwneud yn siŵr bod sesiynau adrodd yn ôl yn eu lle os byddwch eu hangen.

Cwblhau a gwerthuso

Unwaith y bydd eich amser cyswllt yn yr ysbyty wedi dod i ben, mae'n debygol y bydd gennych ragor o waith i'w wneud. Efallai y bydd cwblhau'r gwaith yn golygu gorffen gwaith celf, gosod gwaith celf sydd wedi ei gynhyrchu, cynnal digwyddiad i ddathlu'r gwaith neu adrodd yn ôl ac ysgrifennu adroddiadau neu werthusiadau.

Strategaethau ymadael

Efallai bydd angen i chi ystyried strategaeth ymadael os ydych wedi bod yn gweithio gyda chleifion arbennig ar ward am amser hir; efallai y bydd pobl wedi dod yn hoff ohonoch a gallai eich ymadawiad effeithio arnynt. Efallai y bydd gweithgareddau arall neu becynnau gofal y gallwch eu cyfeirio atynt, neu efallai y gallant gael rhywbeth o'r prosiect fel cofrodd ac arwydd o'ch diolchgarwch.

Gosod Gwaith Celf

Yn dibynnu ar y math o brosiect a'i amcan, efallai y bydd gennych waith celf wedi ei gwblhau erbyn diwedd y prosiect sydd i gael ei osod. Bydd angen i'r adran stadau fod yn rhan o hyn. Mae'n well cychwyn deialog gyda nhw ar gychwyn eich prosiect a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau fel eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Gweler hefyd yr wybodaeth am reoli haint ym Mhennod 2.

Digwyddiad Dathlu

Unwaith y bydd gwaith celf wedi ei osod, os yn bosibl, cynhaliwch ddigwyddiad agoriadol i ddathlu'r gwaith a rhowch wahoddiad i bob un o'r cyfranogwyr a ymglyfrannodd. Gall hyn hybu


eu hunan-barch, a hefyd mae'n cynnig iddynt reswm cadarnhaol i ddod i'r ysbyty. Mae hefyd yn gyfle da iawn i gasglu mwy o adborth ar gyfer eich gwerthusiad a chodi proffil y prosiect. Rhwch wahoddiad i reolwyr yr ysbyty ac aelodau allweddol eraill o'r gymuned megis cynghorwyr a swyddogion y celfyddydau a gweithwch gyda thim cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd i gael sylw gan y wasg leol.

Adroddiadau Gwerthuso

Efallai y gofynnir am ddogfennau gwerthuso neu efallai bydd cyllidwyr neu gomisiynwyr yn gofyn am adroddiad i ddangos y canlyniad neu brofi effeithiolrwydd y prosiect, ond hyd yn oed os na wnânt, mae'n arfer da i wneud hyn ar eich cyfer chi eich hunan. Gweler Pennod 6.



The Beach, Hafan y Mor, Singleton Hospital, image courtesy of Lee Aspland.



Astudiaeth Achos

Video Poetry

Celfyddydau Cymunedol Cwm a Bro

Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi profi trawma, yn eu cefnogi i fynegi eu hunain drwy wahanol ffurfiau celfyddydol. Mae ein hwyluswyr yn Artistiaid profiadol ac yn gwmselwyr hyfforddedig.

Gan ddefnyddio ymagwedd wedi ei ganoli ar y person rydym yn creu amgylchedd diogel anfeiniadol lle caiff pobl ifanc ddysgu sgiliau sylfaenol gwneud ffilmiau, gan ganiatáu iddynt benderfynu pa mor fywgraffyddol neu anhysbys y buasent yn hoffi i'w ffilm fod. Mae gan y cyfranogwyr reolaeth olygyddol; hwy sy'n dangos beth y maent yn dymuno ei greu, ac i bwy y maent am ddangos eu gwaith celf terfynol.

Yn un o'n prosiectau gyda Chymorth i Fenywod Pen-y-bont ar Ogwr, roedd Rachel (newidiwyd ei henw i ddiogelu ei hunaniaeth), mam ifanc i ddau o blant, yn cael ei thrafferthu gan ofid ac iselder. Cafodd Rachel blentyndod anodd iawn a chyfres o brofiadau a pherthnasoedd gwael.

Roedd Rachel yn ei chael hi'n anodd gadael ei chartref. Roedd yn rhaid i'r menywod ddod â'u plant i'r sesiynau gan nad oedd ganddynt lawer o gefnogaeth na dewisiadau gofal plant. Er bod Rachel yn swil iawn ac yn encilgar dywedodd bod y prosiect wedi bod yn achubiaeth iddi yn dilyn dim ond ychydig o sesiynau. Er gwaethaf yr holl anawsterau a wynebwyd ganddi yn ystod ei bywyd llwyddodd i beidio colli un sesiwn.

Ar gychwyn y prosiect roeddem i gyd yn gweithio gyda'n gilydd, yn rhoi cynnig ar wahanol ffurfiau celfyddydol: peintio, ffotograffiaeth ac ysgrifennu creadigol tra'n datblygu ymddiriedaeth ymhlith y grŵp. Ar ôl ychydig o wythnosau roedd y plant a'r mamau ifanc yn hapus i weithio mewn gwahanol grwpiau yn rhai o'r sesiynau. Po fwyaf cyfeiriol yr oeddent yn dod, mwyaf llwyddiannus oedd y prosiect.

Gall y broses rymuso hon alluogi cyfranogwyr nid yn unig i fynegi eu hunain a'u teimladau ond hefyd adennill teimlad o reolaeth dros eu bywydau. Drwy gyfarwyddo eu ffilm eu hunain cânt y cyfle i fyfyrion ar eu profiadau a chynyddu hunanymwybyddiaeth. Yn ei dro gall hyn helpu pobl ifanc i gydnabod patrymau eu hymddygiad a gwneud penderfyniadau ymwybodol sy'n effeithio ar eu dyfodol.

Dyma rai darnau o ysgrifennu Rachel:

....I know how to take punches but

I can't take compliments.
Sometimes I can't get up
I have no energy, no motivation
nothing matters
I don't matter....

...I am their mum and dad
I can not fail my girls by taking my own life
suicide is no longer an option

I can't see my friends hurt or violence
I will step in and stop it.
I do not turn the other way and pretend it is not happening.
I know too well what it feels like when you are left helpless.

I want a future for me and my girls. I want to work, have a car and
security.....



Cychwynnodd Rachel ei ffilm drwy recordio'i thrac sain. O'r darnau gweledol dewisodd greu llanast mawr ar fur gwyn, a'i lanhau a'i wyngalchu nes ei fod yn hollol lân. Penderfynodd Rachel alw'i ffilm yn 'Clean Slate'; cychwyn newydd oedd hwn a ddymunai yn anad dim ar gyfer ei phlant a hi ei hunan.

Cafodd ffilm Rachel ei dangos yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd o flaen 200 o bobl yn cynnwys Comisiynydd Plant Cymru.

Roedd yn llawn balchder a dywedodd wedyn:

“Roeddwn wedi meddwl bob amser na fyddai neb yn deall yr hyn rwyf wedi ei ddiodef. Heddiw daeth pobl ataf i ddweud bod y ffilm wedi gwneud argraff arnynt. Rwy'n credu eu bod wedi deall, mae hwn yn deimlad cwbl newydd i mi...”

Arhosodd Rachel mewn cysylltiad â ni am ddwy flynedd ar ôl y prosiect; gwnaeth ffrindiau gyda'r mamau eraill, cymerodd ran mewn gweithgareddau celf eraill gan wirfoddoli i weithio ar un o'n cynlluniau haf. Ers hynny mae wedi cyflawni pob un o'r nodau a roddodd iddi hi ei hun yn ei ffilm. Rhoddodd y prosiect hwn ofod diogel i Rachel fyfyrto, i gydnabod patrymau negyddol ei bywyd a gwneud penderfyniad ymwybodol a fyddai'n effeithio ar ei dyfodol.



Family painting

5.4 Gweithio'n ddiogel ar y ffin therapiwtig

Mae'r adran hon wedi ei gosod yn y fan hon i egluro'r gwahaniaeth rhwng Therapi Celfyddyd a Chelfyddydau mewn Iechyd ac i helpu Artistiaid i weithio'n ddiogel o fewn Gofal Iechyd.

Mae therapydd Celfyddyd, therapydd Drama a therapydd Cerddoriaeth yn deitlau a ddiogelir ac ni ddylid eu defnyddio gan unrhyw un nad ydynt wedi ennill cymhwyster mewn seicotherapi a gydnabyddir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Rhaid iddynt hefyd fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor fel therapyddion.

Pan fyddant yn gweithio fel therapyddion maent yn cyflwyno gwaith clinigol a seicotherapiwtig. Mae llawer o therapyddion hefyd yn Artistiaid ac efallai eu bod yn cyflwyno prosiectau Celfyddydau mewn Iechyd ochr yn ochr â'u gwaith clinigol. Mae'r gwahaniaeth rhwng prosiectau – boed yn Gelf, y Celfyddydau mewn Iechyd neu Seicotherapi – wedi ei gynnwys ym mwriad y prosiect.

Mae'n bwysig bod prif amcanion prosiectau Celfyddydau mewn Iechyd yn arwain at ganlyniadau clir mewn Celfyddyd ac Iechyd. Dengys ymchwil bod yna lawer o fanteision therapiwtig/iechyd yn deillio o'r math hwn o waith ac mae'r pecyn cymorth hwn wedi ei fwriadu ar gyfer Artistiaid sy'n gweithio yn y maes Celfyddydau mewn Iechyd hwn.

Canllawiau ar gyfer arfer diogel

Mae pa rai o'r awgrymiadau hyn y byddwch yn eu defnyddio'n dibynnu ar eich cyd-destun arbennig a'ch grŵp cleientiaid yn ogystal â'ch lefel hyfforddiant chi eich hunan. Peidiwch byth â gadael i chi eich hunan na'ch cyfranogwyr fod yn agored i risg corfforol nac emosiynol annerbyn- iol. Byddwch yn ymwybodol o'r risgiau; ysgrifennwch asesiad risg.

Ysgrifennwch gontract gyda'r cyfranogwyr. Dylai'r contract gwmpasu cyfrinachedd, disgwylia- dau perthnasol i ymrwymadau amser, lefelau cyfranogi, ymddygiad priodol a pherchnogaeth o'r gwaith a gynhyrchir ac yn y blaen. Datblygwch eich sgiliau rhyngbersonol drwy hyfforddiant mewn gwrando neu gwnsela. Yn arbennig, dysgwch beth yw'r ffordd orau o osgoi sbarduno atgofion trawmatig. Gweithiwch gyda hwylusydd arall, os yn bosibl, o ryw wahanol. Yna, os digwydd i rywun gynhyrfu, gall un ohonoch ffocysu arnynt hwy os ydyw hynny'n briodol. Gweithiwch mewn partneriaeth â therapyddion proffesiynol ac ysgrifennwch gontract gyda nhw fel eu bod yn cymryd y cyfrifoldeb o reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chreu gofod ar gyfer twf a newid.

Astudiaeth Achos



Grŵp Canu i Anadlu Bwrdd
Iechyd Prifysgol Beti Cadwaladr
y Rhyl

Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

Yn yr astudiaeth achos yma mae therapydd cerddoriaeth yn gweithio fel arweinydd grŵp o gantorion sy'n gleifion â chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Mae hon yn enghraifft o'r math o brosiect Celfyddydau mewn Iechyd a allai gael ei arwain gan therapydd cerddoriaeth neu gerddor â'r profiad addas. Mae Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint yn cynnig hyfforddiant arbenigol i hwyluswyr o wahanol gefndiroedd h.y. cerddorion cymunedol, therapyddion cerddoriaeth, cantorion hyfforddedig sy'n gweithio ym myd addysg.

Mae datblygiad gwasanaeth unigryw o'r enw 'Canu i Anadlu' ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn helpu i wella ansawdd bywyd cleifion â chyflyrau rhwystrol cronig yr ysgyfaint. Datblygwyd y gwasanaeth hwn, y cyntaf o'i fath yng Nghymru gan Dim Resbiradol yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan a staff rhaglen Celfyddydau mewn Iechyd a Llesiant y bwrdd iechyd.

Dyweddod y Therapydd Cerddoriaeth, Christine Eastwood, a helpodd i ddatblygu'r grŵp:



“Bwriad Canu i Anadlu yw cynorthwyo pobl â chyflwr rhwystrol cronig yr ysgyfaint i reoli eu cyflwr yn eu cartrefi. Gall symptomau corfforol trallodus arwain at bryder ac unigedd, ac mae'r prosiect yn mynd i'r afael â ffactorau corfforol a seicolegol o fewn amgylchedd grŵp cymunedol cynorthwyol. Mae technegau megis hyfforddiant mewn ymlacio, chwarae lleisiol, ymarferion anadlu a chanu caneuon newydd a chyfarwydd yn helpu i wella ymwybyddiaeth gorfforol, ffitrwydd a hunanreolaeth, a bob amser yn cynnwys peth chwerthin.”

Mae ymchwil wedi dangos bod prosiectau canu'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr i bobl â chyflyrau anadlu cronig ac mae rhwydwaith o grwpiau canu'n cael ei gefnogi gan Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ymlacio, canu sy'n berthnasol i ymarferion anadlu, ymarferion lleisiol a chanu mewn grŵp. Mae wedi ei ddylunio ar gyfer ymarfer cyhyrau diffygiol, helpu cleifion i reoli eu hanadl, rheoli eu cyflwr a chynyddu lles ac annibyniaeth.

Cafodd cleifion a aseswyd gan y tîm resbiradol a'u hatgyfeirio am adsefydlu ysgyfeiniol ddewis i gymryd rhan. Cafodd y gwasanaeth ei groesawu gan gleifion a ddywedodd ei fod yn gwella eu hanadlu, yn eu helpu i drin y cyflwr a chael gwared ag iselder.

Dywed Susan Long, 70, o Fae Colwyn, sy'n mynychu'r grŵp, ei bod hi a'i theulu wedi sylwi ar welliant yn ei hanadlu a'i llesiant.



Meddai "Rwy'n gallu rheoli fy anadlu'n llawer gwell ac mae fy ngŵr wedi sylw fy mod mewn gwell hwyliau. Dwi ddim yn mynd i gymaint o banig ac mae'n eich dwyn allan o rigol eich salwch a'r teimlad eich bod wedi eich ynysu. Rwy'n medru anghofio am bethau pan fyddaf yn mynd yno, yn awr mae gen i agwedd bositif, ac rwy'n cymeradwyo'r ffaith bod y gwasanaeth hwn ar gael gan y Gwasanaeth Iechyd".

Mae'r grŵp wedi symud i ganolfan gymunedol yn y Rhyl, ail grŵp wedi cael ei gychwyn ym Mangor a thrydydd grŵp ar y gweill yn Wrecsam. Mae'r tîm yn gweithio gyda Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Chynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod Canu i Anadlu ar gael i'r holl gleifion â chyflwr cronig yr ysgyfaint yng ngogledd Cymru.



6 GWERTHUSO A MOESEG

6.1 Y gwahaniaeth rhwng Gwerthuso ac Ymchwil

6.2 Gwerthuso

6.2 Dulliau o Werthuso

6.4 Moeseg

6.5 Rhestr Wirio

Mae cynlluniau celf ac iechyd, prosiectau, ac Artistiaid Preswyl yn dod â manteision gwirioneddol a mesuradwy ar wahanol lefelau: i unigolion, staff ac iechyd yn gyffredinol. Mae yna lenyddiaeth gynyddol sy'n dangos effaith llesol y celfyddydau ar ystod eang o ddeillionau iechyd. Mae pwyslais parhaol mewn iechyd ar arfer seiliedig ar dystiolaeth ac ar ddatblygu diwylliant gwerthuso a dysgu ar gyfer llywio arfer a gwasanaethau. Mae'n bwysig ystyried ar gyhwyn unrhyw ymgysylltiad â'r celfyddydau pa werthuso sydd ei angen i adlewyrchu llwyddiant.

6.1 Y gwahaniaeth rhwng Gwerthuso ac Ymchwil

Mae tebygrwydd rhwng ymchwil a gwerthuso yn nhermau dulliau o weithio; fodd bynnag, mae diben a ffocws y cwestiynau a'r gynulleidfa'n amrywio. Mae'n bwysig gwneud yn glir p'un ai gwneud ymchwil yr ydych neu werthuso gwasanaeth. Os ydych yn gwneud ymchwil yna bydd yn rhaid i chi gael sêl bendith bwrdd moeseg ar eich prosiect. Mae Patton yn cynnig rhestr wirio dda sy'n ddefnyddiol i Artistiaid wrth iddynt leoli eu gwaith ymhlith continiwm o arfer ymchwil a gwerthuso gwasanaeth.

Ymchwil	Gwerthuso
Y diben yw profi theori a chynhyrchu canfyddiadau cyffredinol.	Y diben yw penderfynu effeithiolrwydd rhaglen neu fodel penodol.
Mae cwestiynau'n cychwyn gydag ysgolheigion mewn disgyblaeth.	Mae cwestiynau'n cychwyn gyda rhanddeiliaid a'r rhai sy'n bwriadu defnyddio canfyddiadau'r gwerthuso.
Ansawdd a phwysigrwydd a gaiff eu dyfarnu gan gymheiriaid mewn disgyblaeth.	Ansawdd a phwysigrwydd a gaiff eu dyfarnu gan y rhai a fydd yn defnyddio'r canfyddiadau i weithredu a gwneud penderfyniadau.
Yn y pen draw prawf gwerth yw cyfrannu at wybodaeth	Yn y pen draw prawf gwerth yw gwella effeithiolrwydd

Patton, Michael Quinn (2014). Evaluation Flash Cards: Embedding Evaluative Thinking in Organizational Culture. St. Paul, MN: Otto Bremer Foundation, [ottobremer.org](http://www.ottobremer.org/sites/default/files/fact-sheets/OBF_flashcards_201402.pdf). http://www.ottobremer.org/sites/default/files/fact-sheets/OBF_flashcards_201402.pdf

6.2 Gwerthuso

Mae gwerthuso celfyddydau a gwaith iechyd yn bwysig ar gyfer dangos eu cyfraniad i agenda iechyd cyhoeddus yn ogystal â helpu i ddatblygu a gwella ymyriadau'r celfyddydau ac iechyd.

Dechrau ami

Dylid ystyried gwerthuso'n gynnar yn ystod cyfnod cynllunio'r cynllun/prosiect, pan fydd diben cyffredinol y gwaith yn cael ei ddatblygu a'i egluro. Nid oes raid i'r gwerthuso gael ei gynnal fel gweithgaredd ar wahân (neu is-brosiect); yn hytrach gellir ei integreiddio i'r gwaith celfyddydau ac iechyd. Efallai y bydd yn dylanwadu ar y prosiect (gwerthuso ffurfiannol) yn ogystal â chynhy-



rchu rhestr o ddeilliannau dysgu a myfyrdodau ar y prosiect (gwerthusiad crynodol).

Dylai gwerthuso gwaith celfyddydau ac iechyd gael ei wneud ar y cyd gan y rhai sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Ceisiwch ennyn ymglyfraniad aelodau eraill o dîm y prosiect a'r rhai hynny yr ydych yn gweithio gyda nhw ar y prosiect i'ch helpu i ddylunio gwerthuso a rhannwch rolau a chyfrifoldebau rhwng unigolion.

Holwch a oes prosiectau celfyddydau ac iechyd eraill ar y gweill yn yr un cyd-destun â'ch prosiect chi. Holwch pa fath o wybodaeth sy'n cael ei chasglu a'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio i werthuso'r gwaith hwn. Efallai y bydd pobl yn rhannu eu profiadau a'u gwybodaeth fewnol am sut i ennyn ymgysylltiad ac ymglyfraniad pobl yn eich gwaith ac yn ei werthusiad.

Caniatâd gwybodus

Mae'n ddefnyddiol rhoi taflen wybodaeth i'r bobl sy'n cymryd rhan yn y prosiect a'i werthusiad sy'n egluro'r prosiect a phwrpas y gwerthusiad sy'a manylion yr hyn y gofynnir iddynt ei wneud fel rhan o'u cyfranogiad. Dylai hefyd ddweud wrth gyfranogwyr sut y gallant dynnu'n ôl o'r prosiect. Treuliwch amser gyda phobl pan fyddwch yn gofyn iddynt gwblhau ffurflen ganiatâd. Mae'r ffurflen ganiatâd hon yn rhoi caniatâd i gasglu gwybodaeth a all hefyd gynnwys caniatâd ar gyfer gweithgareddau ffilmio neu recordio sain neu sgysiau. Dylai gynnwys manylion am ble y caiff yr wybodaeth ei defnyddio. Dylid egluro'n benodol y caniatâd i ddefnyddio'r rhyngwyd.

Efallai y bydd y broses caniatâd gwybodus yn wahanol ar gyfer grwpiau penodol. Er enghraifft: plant, pobl hŷn a phobl ag anawsterau dysgu lle bydd yn ddefnyddiol i weithio gydag eraill i sicrhau proses foesebol briodol parthed caniatâd a gwerthuso

Storio a chyfrinachedd

Mae'n bwysig ystyried a chytuno ar fannau i storio gwybodaeth a gaiff ei chasglu gan y gallai gynnwys gwybodaeth bersonol.

Gweler pennod 2 ar gyfrinachedd a byddwch yn ymwybodol o bolisiau'r GIG.

Gweler yr Atodiad am enghraifft o ffurflen ganiatâd.

Sut fydd y gwerthusiad yn cael ei gyflwyno?

Meddyliwch am ochr ymarferol eich dulliau o werthuso a cheisiwch ei wneud eich hunan. Os yw gwerthuso'n digwydd ochr yn ochr â phroses greadigol ystyriwch a fydd cyfyngiadau amser yn effeithio ar y rhai sy'n cymryd rhan i gymryd rhan lawn yn y gwerthusiad. Beth yw anghenion y rhai fydd yn cymryd rhan? (e.e: iaith).

6.3 Dulliau Gwerthuso

Mae'r broses werthuso'n golygu myfyrio ar y gwaith y bwriadwyd ei wneud a'i gyflawni a dehongli'r wybodaeth yng nghyd-destun yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd, gyda'r bwriad o asesu'r hyn a gyflawnwyd gan y gwaith celfyddydau ac iechyd. I wneud hyn mae'n ddefnyddiol casglu data meintiol ac ansoddol gan ddefnyddio ystod o ddulliau casglu data.

Y gwahaniaeth rhwng dulliau meintiol ac ansoddol o gasglu data

Mae dulliau meintiol yn rhoi canlyniadau rhifyddol. Er enghraifft, y canran o gyfranogwyr sy'n dal i ymarfer chwe mis yn dilyn cwblhad rhaglen adferiad.

Mae dulliau ansoddol yn defnyddio naratif a data disgrifiadol yn hytrach na niferoedd. Er enghraifft, disgrifiad o farn ac agwedd y rhai sy'n cwblhau rhaglen adferiad, a'u syniadau am y ffordd y gellid ei gwella. Gall dulliau meintiol ac ansoddol gael eu defnyddio naill ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, fel ymagwedd dulliau cymysg.



Enghreiffiau o ddogfennau

- Cofnodion rheolaidd o'r hyn yr ydych wedi ei wneud e.e.: cofnodion cyfarfodydd (yn cynnwys cofnodion gweledol).
- Y nifer o bobl yr ydych wedi gweithio gyda nhw e.e. cofrestrau.
- Niferoedd pellach o gysylltiadau gwasanaeth iechyd/ymweliadau/derbyniadau.
- Celfyddydau (celf weledol, ysgrifennu creadigol a pherfformio) a gafodd eu creu.
- Delweddau ffotograffig sydd wedi dal y gwaith a wnaed.
- Recordiad sain neu fideo o sesiynau, storïau a dyfyniadau.
- Adborth a roddwyd gan y bobl a gymerodd ran (wynebau'n gwenu, targedau saethyddiaeth, cardiau dyfyniadau, sylwadau ar ddarnau o bapur ac yn y blaen).
- Storïau digidol a ffilmiau dogfennol.
- Grwpiau Facebook.
- Dyddlyfrau myfyriol oddi wrth Artistiaid a chyfranogwyr.
- Myfyrdodau sylwedyddion, gofawyr a staff gofal.

Enghreiffiau o ddulliau o gasglu data ymchwil

Grwpiau ffocws

Yn nodweddiadol grŵp o ddim mwy na 10 o bobl, sy'n cymryd rhan mewn trafodaeth dan arweiniad hwylusydd a enwebwyd, gyda'r bwriad o ennill ystod o sylwadau a phrofiadau am weithgaredd, syniad neu bwnc penodol. Mae trafodaethau dan ofal hwylusydd yn tynnu allan agweddau, teimladau, credöau, profiadau ac ymatebion ac mae rhyngweithio a deialog rhwng y grŵp yn medru ail-oleuo syniadau cyffredin yn ogystal â pholareiddio cysyniadau o'r pwnc o dan sylw. Yn nodweddiadol caiff grwpiau ffocws eu recordio (cyn belled â bod y chyfranogwyr i gyd yn cytuno) gan gynhyrchu trawsgrifiadau hir ar gyfer dehongli a dadansoddi.

Cyfweliadau

Mae cyfweliad yn drafodaeth rhwng cyfwelydd a chyfranogydd. Gall hyn ddigwydd wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn, ac fel arfer caiff ei arwain gan amserlen gyfsweld a chymysgedd o gwestiynau agored a chaëdig ac anogaeth. Gall cyfweliadau fod yn rhai strwythuredig (gyda chwestiynau penodol, ond sydd fel arfer yn benagored) neu'n rhai lled-strwythuredig (lle gall trafodaeth fod yn fwy hyblyg).

Holiaduron/arolygon

Gall y rhain fod yn ddull rhad a chyflym o ddarganfod barn cleifion a staff ond mae angen iddynt gael eu dylunio'n ofalus er mwyn osgoi camddechongli. Rhaid i gwestiynau fod yn eglur er mwyn sicrhau nad oes dim camddechongli barn a hefyd er mwyn osgoi graddfeydd ymateb isel. Gellir defnyddio holiaduron cydnabyddedig, wedi eu dilysu, megis Graddfa Iechyd Meddwl a Llesiant Warwick Edinburgh a rhai eraill sy'n fwy penodol i wasanaethau iechyd.

Gellir cael gwybodaeth bellach am ddulliau o gasglu data i gynorthwyo gwerthuso prosiectau celfyddyd mewn iechyd o bodlediad methods@Manchester, cyfres o bodlediadau gwybodus sy'n egluro dulliau gwahanol o gasglu data yn y gwyddorau cymdeithasol. Cofiwch, yr hyn sydd fwyaf pwysig yw bod y dull a ddewisir yn gwerthuso'n wirioneddol yr hyn y bwriedir iddo ei werthuso, a'i fod yn ateb y cwestiwn yr ydych wedi ei ofyn.

Arts and health initiatives, project and residencies are delivering real and measurable benefits at different levels. Start thinking about evaluation at an early stage in your intervention.

6.4 Moeseg

Yn nodweddiadol mae gwerthuso'n golygu lefel o gyfranogiad gan unigolion ac yn golygu casglu gwybodaeth oddi wrth gyfranogwyr, felly – yr un fath ag mewn ymchwil – mae angen ei gynnal mewn dull moesegol er na fydd raid, hwyrach, ei gyflwyno ar gyfer cael sêl bendith bwrdd moesegol. Mae angen i werthuso gyd-fynd â phrotocolau moesegol y sefydliad o fewn yr hwn y mae'r prosiect yn cael ei weithredu. Bydd y swyddfa ymchwil a datblygu yn yr ysbyty'n medru rhoi arweiniad ar b'un ai oes angen cymeradwyaeth foesegol oddi wrth fwrdd moeseg y GIG ai peidio.

Am arweiniad manwl ar gynnal ymchwil foesegol gweler gwasanaeth moeseg ymchwil: <https://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=952&pid=596310>

6.5 Checklist

Pam gwerthuso? Beth ydych eisiau ei ddysgu?

Beth yw bwriad ymyriad y Celfyddydau?

I bwy y bwriedir y canfyddiadau?

Pa lenyddiaeth sy'n bodoli eisoes?


Ymgyfraniad pwy sydd ei angen yn y gwerthusiad?

Pa adnoddau sydd arnoch eu hangen?

Pa ddulliau o gasglu data sydd fwyaf priodol?

Faint o amser wnaiff hyn gymryd?

Pwy fydd yn dadansoddi'r data?



Healing Words & Pictures 2015,
Writer: Clare Potter, Lead
artist: Catherine Lewis,
image courtesy of Gwent Arts
in Health.

7 RHESTR WIRIO AR GYFER GWEITHWYR GOFAL IECHYD WRTH WEITHIO GYDAG ARTISTIAID

Er y bydd y rhan fwyaf ohonom wedi cwrdd â, neu wedi bod ag angen sgiliau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, prin yw'r rhai ohonom sydd wedi cael y cyfle i weithio gydag Artist. Bydd y rhan fwyaf o Artistiaid sy'n ymgyfrannu mewn prosiectau mewn lleoliadau gofal iechyd wedi cael hyfforddiant proffesiynol ac wedi gorfod dangos dawn ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol, a'r gallu i gydweithio gyda gwahanol gymunedau o bobl.

Nid yw pob prosiect llwyddiannus yn arwain at ddarn diriaethol o waith celf y gellir ei arddangos neu ei berfformio i gynulleidfa, oni bai bod hyn wedi cael ei ddatgan fel y canlyniad a ddymunir o'r cychwyn cyntaf. Yn aml mewn prosiectau creadigol, mae'r broses o wneud y gelfyddyd a mwynhau'r profiad hwnnw yn bwysicach na'r cynnyrch ffisegol ei hunan. Er enghraifft, efallai na fydd pobl â dementia neu ddiffyg anadl yn medru gwneud y synau mwyaf soniarus ond gall canu arwain at ddwystr ffisegol ac emosiynol.

Y prosiectau mwyaf llwyddiannus fydd y rhai a gaiff eu cynllunio gan staff y ward ar y cyd â'r Artistiaid a lle gall y staff fod yn hyblyg yn eu hymagwedd wrth ddarparu ar gyfer gweithdy neu berfformiad.

Cyn i'r prosiect gychwyn

- Bydd ar Artistiaid angen y pethau canlynol:
- Briff clir – cynlluniwch gyda'ch gilydd – beth ydych chi'n ei ddisgwyl?
- Llythyr cytundeb neu gontract – beth yw sefyllfa yswiriant yr Artist, pryd a faint fydd eu tâl ac yn y blaen?
- Os ydynt i gael unrhyw gysylltiad â chlaf heb oruchwyliaeth yna mae arnynt angen cliriad DBS, (a elwid cyn hyn yn gliriad CRB).
- Trafodaeth ar y gofod fydd yn cael ei ddefnyddio, nifer y cleifion ac yn y blaen.
- Cynllun gwerthuso y cytunwyd arno.

Ar gychwyn y prosiect

- Sesiwn ymsefydlu drylwyr o'r ardal y byddant yn gweithio ynddi yn cynnwys cyfrinachedd a rheoli haint – megis aelod newydd o'r staff.
- Bathodyn adnabod
- Cyflwyniad i'w prif berson cyswllt ar gyfer unrhyw ôl-adrodd neu ddatrys problemau
- Cyflwyniad i dîm y ward
- Cyflwyniad i'r cleifion

Yn ystod y prosiect

- Sicrhau bod y staff ar y ward yn gwybod pryd fydd yr Artist yn cyrraedd
- Helpu i symud cleifion – gallai hyn gael ei wneud yn barod ar gyfer cyrhaeddiad yr Artist
- Siarad â'r cleifion am y prosiect celf a sut y gwnaethant ei fwynhau ac adborth i'r Artist ar ffurf gwerthusiad ffurfiannol fel y gallant ymateb yn dda i anghenion cleifion

Drwy gyfathrebu parhaus a da rhwng yr Artist, gweithwyr proffesiynol mewn gofal iechyd a'u cleifion, dylai unrhyw brosiect gyflawni'r canlyniadau a ddymunwyd, ac yn aml, wella arnynt.

Atodiadau 1 Ffurflen Ganiatâd ar gyfer Ffotograffiaeth

Teitl y prosiect:

Rwy'n deall y bydd fy ffotograff yn cael ei recordio'n ddigidol a'i gadw am gyfnod amhenodol. Bydd y ffotograff yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaeth o fewn:

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Improving our services | <input type="checkbox"/> Exhibitions |
| <input type="checkbox"/> Presentations | <input type="checkbox"/> Leaflets/Brochures/Posters |
| <input type="checkbox"/> Reports | <input type="checkbox"/> ABMU intranet (internal website) |

I understand I can change my mind at any time without giving a reason, and this will not affect any future care that I or my relatives may need.

Rhowch gylch o amgylch eich dewisiadau isod os gwelwch yn dda:

Rwy'n fodlon i fy enw fod yn hysbys fel y person yn y ffotograff hwn. **Ydw/Nac ydw**

Rwy'n fodlon i fy ffotograff gael ei ddefnyddio tu allan i'r GIG. **Ydw/Nac ydw**

Rwy'n fodlon i fy ffotograff gael ei rannu ar y rhyngwyd. **Ydw/Nac ydw**

Rwy'n deall y gall y bydd y Bwrdd Iechyd angen cysylltu â mi eto ynglŷn â'r ffotograff hwn ac rwy'n hapus iddynt wneud hynny. **Ydw/Nac ydw**

Rwy'n cytuno i fy ffotograff gael ei dynnu. Mae'r diben wedi cael ei egluro'n llawn i mi ac rwy'n hapus i fy ffotograff gael ei ddefnyddio at y dibenion a nodais uchod.

Ychwanegwch unrhyw sylwadau pellach neu adborth ar gefn y ffurflen hon os gwelwch yn dda.

Llofnod :

Enw (PRINTIWCH)

Llofnod gwarcheidwad (os yn briodol)

Enw (PRINTIWCH)

Manylion cyswllt dewisol:

Dyddiad:

Llofnod y person a dynnodd y ffotograff:

Enw (PRINTIWCH):

Teitl swydd:

Manylion cyswllt dewisol:

Dyddiad:

Atodiadau 2

Contract mwy addas ar gyfer Celf Gyhoeddus

1. DIFFINIADAU

O dan yr amodau hyn bydd gan y geiriau canlynol yr ystyr a neilltuwyd iddynt yma:

Mae 'Y Cleient' yn golygu

Mae 'Yr Artist' yn golygu

Bydd 'Y Gwaith' yn golygu'r gwaith celf, y bydd manylion a lleoliad ohono wedi eu nodi yn y Briff.

Bydd 'Y Briff' yn golygu'r briff, a atodir yma, a fydd yn ffurfio rhan anhepgor o'r Cytundeb hwn.

Bydd yr unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb.

Bydd y gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd ac i'r gwrthwyneb.

2. CWMPAS Y GWAITH

Mae'r Cleient drwy hyn yn comisiynu'r Artist i ymgymryd â'r gwaith a'i gyflawni.

Yn benodol bydd hyn yn cynnwys y dyluniad, adeiladu ac adeiladwaith y "gwaith celf" gorffenedig yn unol â'r cynigion y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yn lluniadau'r Artist, yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt gyda'r Artist ac sydd wedi ei atodi i'r Cytundeb hwn.

3. GWERTHU'R GWAITH

Cytunwyd y bydd Y Gwaith yn dod yn eiddo i'r Cleient pan fydd y Gwaith wedi ei gwblhau a'r Artist wedi derbyn y Ffi y cytunwyd arni fel y nodwyd yn Amod 8.1 (neu dâl fel y nodwyd yn Adran 9 mewn achos o derfynu).

4. HAWLFRAINT A HAWLIAU ATGYNHYRCHU

4.1 Bydd hawlfraint yn y Gwaith (ac unrhyw ddyluniadau rhagarweiniol, modelau neu luniadau yn cynnwys y rhai a gyflwynwyd o dan Amod 4.4) yn aros gyda'r Artist.

4.3 Mae'r Artist yn cytuno i roi hawl eccliwsif i'r Cleient ar y Gweithiau y cytunwyd arnynt.

4.3 Bydd gan y Cleient yr hawl, heb ymgynghori â'r Artist a heb dâl pellach, i wneud neu awdurdodi rhywun arall i dynnu unrhyw ffotograff o'r Gwaith a chynnwys neu awdurdodi rhywun arall i gynnwys y Gwaith neu unrhyw ffotograff o'r Gwaith (neu unrhyw ddyluniadau rhagarweiniol neu luniadau gwaith a gyflwynwyd gan yr Artist o dan amod 4.4) mewn unrhyw gofnod, cyhoeddiad, ffilm, fideo neu ddarllediad teledu, yn amodol ar Amod 15.2.

5. CYDLYNU A RÔL YR ASIANT

5.1 Bydd yr Artist yn cydlynu'n agos â'r Cleient drwy gydol y cyfnod pan fydd y Gwaith yn symud yn ei flaen, gan dalu pa bynnag

ymweliadau â'r safle a mynychu cyfarfodydd i drafod manylion y Gwaith ar gais y cleient fel sy'n rhesymol angenrheidiol.

6. ESTHETEG, GOFAL A DIWYDRWYDD

Bydd yr Artist yn ymarfer pob medr rhesymol, gofal a diwydrwydd wrth ymgymryd â'r Gwaith a'i gyflawni.

7. YSWIRIANT

7.1 Bydd yr Artist yn ysgwyddo unrhyw risg o golled neu ddifrod i'r Gwaith (p'un ai mewn cyflwr gorffenedig neu anorffenedig) yng nghyfnod gwneuthuriad, pa le bynnag y bo, hyd nes bydd y Gwaith wedi ei gyflwyno gan yr Artist i'r Contractwr.

7.2 Bydd y Cleient yn sicrhau bod y Gwaith wedi ei yswirio yn dilyn gosodiad boddhaol gan y Contractwr yn erbyn colled neu ddifrod yn deillio o risgiau arferol, yn cynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

8. FFFIOEDD A CHOSTAU

8.1 Wrth ystyried creu a gwerthu'r Gwaith gan yr Artist, bydd y Cleient yn cytuno i dalu i'r Artist gyfanswm o.....punt (y maint mewn geiriau).

Cyfnod 1 Ar lofnodi'r cytundeb hwn
£

Cyfnod 2 I'w dalu erbyn

£

Cyfnod 3 I'w dalu erbyn

£

Cyfnod Olaf Ar Osodiad Boddhaol a throsglwyddiad

y Gwaith

£

8.2 Nid yw'r symiau a gynhwysir yng Nghymal 8.1 uchod yn cynnwys Treth ar Werth.

8.3 Mae'r Artist yn cytuno i greu Gwaith am y swm y cytunwyd arno, a fydd (oni nodir fel arall yn y Briff neu oni chytunir arno fel arall ar bapur) yn cael ei ystyried i gynnwys yr holl dreuliau a gafodd eu talu neu sydd i'w talu gan yr Artist ac Is-gontractwr mewn cysylltiad â'r gwaith (ac eithrio lle mae'r costau wedi deillio'n uniongyrchol o ofynion ychwanegol neu amodau a osodir gan asiantau'r Cleient neu Is-gontractwr neu fel canlyniad i ohiriad yng nghyflwyniad y Gwaith am resymau tu hwnt i reolaeth yr Artist).

8.4 Mae'r gwaith i'w gwblhau gan yr Artist erbyna'i osod erbyn.....(y dyddiad Cwblhau). Bydd y dyddiad cwblhau fodd bynnag yn medru cael ei estyn am gyfnod pan allai'r Artist gael ei hatal rhag cwblhau'r gwaith oherwydd salwch, niwed damweiniol

gan dân, llifogydd neu unrhyw berygl neu achos arall tu hwnt i reolaeth yr Artist (yn cynnwys at y diben hwn unrhyw weithredu, hepgoriadau neu ofynion o du'r Cleient neu eu hasiantau neu is-gontractwr). Ac eithrio fel y darperir yma, os yw'r Artist yn methu cwblhau'r gwaith o fewn tri mis arall o ddyddiad cwblhau mae'r Cleient yn cadw'r hawl i weithredu'r Cymal terfynu rhif 9.

8.6 Bydd yr Artist yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cleient am y modd y mae'r Gwaith yn symud yn ei flaen, ac os ar unrhyw adeg ystyria'r Artist na fydd y gwaith efallai wedi ei gwblhau erbyn yr amser a benodwyd, bydd yn rhoi gwybod ar unwaith i'r Cleient.

9. TERFYNU CYTUNDEB

9.1 Cydnabyddir y gall y Comisiwn gael ei derfynu gan y Cleient yn unig os bydd y prosiect y mae'r Gwaith yn rhan ohono'n cael ei ganslo yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol am resymau na ellid bod wedi eu rhagweld pan y gall y bydd y Cleient yn terfynu'r Cytundeb hwn drwy rybudd ysgrifenedig i'r Artist, a fydd wedi hyn â hawl i dderbyn neu gadw tâl am yr holl waith a wnaed neu a gafodd ei is-gontractio yn unol â'r Cytundeb hwn i fyny at ddyddiad y fath nodyn, ynghyd â'r fath symiau pellach y gellid eu hystyried yn rhesymol o dan yr amgylchiadau ac i'w cytuno rhwng y partion.

9.2 Petai'r Artist yn marw cyn cwblhau'r Gwaith, bydd gan olynwyr yr Artist yn y teitl yr hawl i dderbyn neu gadw tâl am yr holl waith a wnaed gan yr Artist yn unol â'r Cytundeb hwn, ynghyd â'r fath symiau pellach y gellid eu hystyried yn rhesymol o dan yr amgylchiadau ac i'w cytuno rhwng y partion; o dan y fath amgylchiadau ni fydd y ddarpariaeth cosb yng Nghymal 8.4 uchod yn weithredol. Mae'r Artist yn enwebu..... i arolygu cwblhad y Gwaith, petai'n marw cyn i'r Gwaith hwn gael ei gwblhau a'i osod.

9.3 Gall y Cleient derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi rhybudd ysgrifenedig os nad yw'r Gwaith wedi ei gwblhau o fewn tri mis o'r dyddiad y cyfeirir ato yn Amod 8.4 (fel y cafodd ei estyn o dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yno).

10. GWREIDDOLDEB

Mae'r Artist yn gwarantu y bydd y Gwaith yn un gwreiddiol.

11. CLUDIANT A GOSOD

(Oni bai bod y Briff yn dweud fel arall) bydd yr Artist neu'r Asiantau neu'r Is-gontractwr a benodwyd ganddo yn trefnu pob cludiant angenrheidiol yn ymwneud â'r Gwaith, yn ystod gwneud y Gwaith a mynd ag ef i'r safle. Bydd y Contractwr yn gosod y Gwaith yn unol â'r manylion a gynhyrwyd gan yr Artist ac a cytunwyd arnynt gan y Contractwr a'r Rheolwr Prosiect.

>

Atodiadau 2 (contd)

Contract mwy addas ar gyfer Celf Gyhoeddus

12. GOHIRIO'N DILYN CWBLHAU'R GWAITH

Os na ellir mynd â'r Gwaith i'r safle/neu ei osod oherwydd bod y prosiect y mae'r Gwaith yn ffurfio rhan ohono wedi ei ohirio neu am unrhyw reswm arall tu hwnt i reolaeth yr Artist, mae'r Cleient yn cytuno i drefnu i'r Gwaith gael ei storio ynghyd â'r gost o wneud hynny ac i ad-dalu'r Artist am unrhyw gostau rhesymol a gollir gan yr Artist fel canlyniad uniongyrchol.

13. PARATOI'R SAFLE A GOSOD

Ac eithrio lle mae'r Briff yn darparu fel arall:

13.1 Bydd y Cleient yn gyfrifol ei hunan am y gost ac mewn ymgynghoriad â'r Artist, y Rheolwr Prosiect a'r Asiant am baratoi'r safle a gymeradwywyd ar gyfer y Gwaith.

13.2 Bydd yr Artist yn rhoi dim llai na 4 wythnos o rybudd i'r Cleient a'r Asiant o ddyddiad a ragwelir ar gyfer cwblhau'r gwaith.

13.3 Bydd yr Artist, am ddim cost ychwanegol, yn bresennol, ac yn barod i gyfrannu arbenigedd i'r Cleient yn ystod gosod y Gwaith.

13.4 Bydd y Cleient yn caniatáu mynediad i'r Artist ar bob adeg resymol i'r safle a gymeradwywyd ar gyfer y Gwaith.

13.5 Bydd yr Artist yn cydlynu yn ôl y galw â'r Asiant/Cleient ym mhob mater yn ymwneud â pharatoi'r safle a'r gosod.

13.6 Bydd yr Artist yn gyfrifol am dalu costau cludo a gosod y Gwaith.

13.7 Bydd yr Artist yn gyfrifol am ddarparu offer digonol ar gyfer sefydlu'r Gwaith. Yr Artist neu ei his-gontractwyr fydd yn gyfrifol am unrhyw ddiffrod neu anaf a achosir fel canlyniad i gyflwr y safle a rhaid cael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i dalu am unrhyw hawliadau yn y dyfodol.

13.9 Y Cleient fydd yn gyfrifol am sicrhau bod pob caniatâd cynllunio angenrheidiol a chymeradwyaeth unrhyw awdurdod statudol neu berchennog y safle wedi ei gael neu'n mynd i fod ar gael ac am yr holl gostau cysylltiedig.

14. CYNNAL A CHADW A NIWED/NEWID I'R GWAITH

14.1 Cyn i'r Gwaith gael ei osod, bydd yr Artist yn darparu amserlen cynnal a chadw i'r Cleient ar gyfer y Gwaith, gan roi manylion digonol am ddulliau glanhau a chynnal a chadw gofynnol a rhestr o'r deunyddiau a fydd yn cael eu defnyddio.

14.2 Ar ôl gosod y Gwaith bydd y Gwaith yn

dod yn eiddo i'r Cleient ac fel y cyfryw bydd y Cleient yn gyfrifol am sicrhau arolygu, yswirio, cynnal a chadw a glanhau'r Gwaith.

14.3 Yn amodol ar Amod 14.4 os caiff y Gwaith ei niweidio, ac yn dilyn ymgynghori â'r Artist, bydd y Cleient yn penderfynu bod ei atgyweirio/trwsio

yn ymarferol am gost dderbyniol, bydd y Cleient yn rhoi'r dewis i'r Artist i gynnal neu arolygu'r atgyweirio neu'r trwsio ar dermau ac i amserlen i'w chytuno.

14.4 Lle bydd yn ofynnol i'r Gwaith gael ei atgyweirio neu ei drwsio oherwydd diffygion mewn crefftwaith o fewn 12 mis ar ôl ei gwblhau, bydd yr Artist yn gyfrifol am drefnu a thalu am yr atgyweirio neu'r trwsio angenrheidiol. Lle bydd yn ofynnol i'r Gwaith gael ei atgyweirio neu ei drwsio oherwydd diffygion mewn deunyddiau o fewn 12 ar ôl ei gwblhau, bydd yr Artist yn gyfrifol am drefnu a thalu am yr atgyweirio neu'r trwsio angenrheidiol a bydd yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau unrhyw welliannau oddi wrth gyflenwyr y fath ddeunyddiau. Ni fydd y rhwymedigaeth yn rhagfarnu unrhyw gyfnod gwarant arall a ddarparwyd gan unrhyw berson a gyflenwodd waith neu ddeunydd i'r Artist, os caiff ei nodi yn y Briff.

15. HAWLIAU MOESOL, PRIODOLIAD A CHYDNABYDDIAETH

15. Bydd y Cleient bob amser yn cydnabod ac yn enwi'r Artist fel yr un a greodd y Gwaith yn cynnwys yr holl ddigwyddiadau pan fydd y Gwaith, neu luniadau, dyluniadau neu fodelau yn cael eu harddangos i'r cyhoedd neu ddelwedd weledol o'r Gwaith yn cael ei darlledu neu gopïau o waith graffig sy'n cynrychioli'r Gwaith neu ffotograff ohono yn cael eu dangos i'r cyhoedd.

16. SYMUD

16.1 Mae'r Cleient yn cadarnhau ei bod yn fwrriad i'r Gwaith fod ar gael ar gyfer ei osod ar safle a benodwyd am gyfnod amhenodol yn ystod yr hwn y bydd y cyhoedd yn cael mynediad iddo cyn belled ag y gall y Cleient sicrhau. Fodd bynnag mae'r Cleient yn cadw'r hawl i symud y gwaith o olwg y cyhoedd dros dro petai hyn yn ofynnol ar gyfer cynnal a chadw neu resymau strwythurol neu ryw achos arall dilys.

17. CYFEIRIADAU

Mae'r Artist yn ymgymryd, yn ystod cyfnod y Comisiwn, i roi gwybod i'r Cleient a'r Asiant yn ysgrifenedig, o fewn saith diwrnod, am unrhyw newid yn ei gyfeiriad, yn cynnwys cyfeiriad ei stiwdio.

18. AMRYWIADAU

Ni ellir gwneud unrhyw amrywiadau nac ychwanegiadau at yr Amodau hyn heb ganiatâd ysgrifenedig pob parti.

19. CYFFREDINOL

19.1 Yn achos unrhyw wrthdaro rhwng termau'r Briff a'r Amodau hyn, yr olaf fydd drechaf.

19.2 Ni fydd gan yr Artist unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb am weithrediadau neu hepgoriadau contractwyr y safle neu weithwyr neu asiantau'r Cleient neu berchennog y safle.

19.3 Mae'r contract hwn yn un personol i'r Artist na chaiff aseinio unrhyw ran o'i rhwymedigaethau heb ganiatâd (na ddylid ei wrthod heb reswm da) ac eithrio hawl yr Artist i is-gontractio gwneuthuriad y Gwaith neu unrhyw ran ohono i eraill ar yr amod bod yr Artist yn dal yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Amodau hyn.

20. HYD

Mae'r Cytundeb hwn yn rhwymo'r partion.

21. CYFRAITH BRIODOL

Caiff y Cytundeb hwn ei lywodraethu gan gyfraith Lloegr a Chymru a dim ond drwy gytundeb ysgrifenedig pellach wedi ei lofnodi gan bob parti y gellir ei ddiwygio.

22. ANGHYDFOD

Gall y bydd unrhyw anghydfod o dan, neu yn codi o'r Cytundeb hwn yn cael ei atgyfeirio ar gais y naill parti neu'r llall at ganolwr annibynnol a fydd yn ymdrechu hyd eithaf ei gallu o fewn rheswm i ddod o hyd i ddatrysiaid derbynol i bob parti a gall y bydd yn gwneud argymhellion yn dibynnu ar yr hyn a ystyrir ganddi yn deg a rhesymol o dan amgylchiadau'r achos. Bydd y fath atgyfeiriad yn ddiragfarn tuag at hawl unrhyw parti i gymryd camau cyfreithiol ar unrhyw adeg.

LLOFNODWYD

yr Artist Dyddiad:

dros ac ar ran y Cleient Dyddiad:

Atodiadau 3

Contract mwy addas ar gyfer Celfyddydau Cyfranogol

Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer [manyion am y Sefydliad].

Rhif Elusen Gofrestredig [Os yn berthnasol] [Rhowch fanylion cryno am y contract].

GWNEIR Y CYTUNDEB HWN AR

[Dyddiad]

Rhwng

[rhowch enw a chyfeiriad y sefydliad yn y fan hon] ("Rheolwr Prosiect").

a

[rhowch enw a chyfeiriad yr Artist yn y fan hon] ("yr Artist").

1. Y CYTUNDEB

1.1 Mae'r contract hwn yn cychwyn ar [rhowch y dyddiad] ac fe'i cyhoeddwyd am (rhowch gyfnod o amser), ar gyfer [rhowch y gweithgaredd e.e. gweithiau celf a chreffft] fel a welir yn yr amserlen sydd wedi ei hatodi. Bydd yn dod i ben yn awtomatig yn dilyn y sesiwn olaf neu cyn hynny os bydd y naill barti neu'r llall yn rhoi rhybudd yn unol â darpariaethau terfynu a nodir yn y contract isod (2).

1.2 Gall y contract gael ei derfynu cyn y dyddiad terfynu gan y naill ochr neu'r llall drwy roi rhybudd o 24 awr. Gellir hefyd ei estyn os bydd pawb yn cytuno am fwyddyn bellach gyda dyddiadau'n cael eu cytuno fel estyniad i'r amserlen wreiddiol.

1.3 Wrth ymrwymo i'r contract hwn, mae'r Artist yn cytuno i ddarparu gwasanaethau ar gyfer Rhaglen y Celfyddydau yn [enw safle'r sefydliad] neu safleoedd eraill drwy drefniant ymlaen llaw gyda Rhaglen y Celfyddydau a staff y ward. Yn gyfnewid, bydd y Rhaglen Gelfyddydau'n darparu'r adnoddau a'r gefnogaeth angenrheidiol i gynnal y sesiynau.

2. CYFRIFOLDEB YR ARTIST

2.1 Mae'n ofynnol i'r Artist ddilyn gweithdrefnau a pholisïau'r Ymddiriedolaeth fel y cawsant eu cyfathrebu gan Raglen y Celfyddydau yn y Canllawiau i Artistiaid.

2.2 Mae'n ofynnol i'r Artist drefnu oriau a phatrymau gwaith sy'n cyd-fynd â gofynion y contract hwn.

2.3 Bydd yr Artist yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth, fel y gofynnwyd gan staff yr Ymddiriedolaeth, tra'n bresennol ar dir yr Ymddiriedolaeth.

2.4 Ni fydd yr Artist yn datgelu i unrhyw berson (ac eithrio person wedi ei awdurdodi gan y Rheolwr Prosiect) unrhyw wybodaeth a gasglwyd ganddynt mewn cysylltiad â'r contract.

2.5 Ni fydd yr Artist yn datgelu i unrhyw berson (ac eithrio person wedi ei awdurdodi gan y Rheolwr Prosiect) unrhyw wybodaeth a gasglwyd ganddynt yn eu cysylltiad â darparia-

eth y gwasanaethau sy'n ymwneud â:

Yr Ymddiriedolaeth, ei staff a'i weithdrefnau.

Enw unrhyw glaf yn unrhyw un o ysbytai'r Ymddiriedolaeth neu sefydliadau eraill.

Cyflwr meddygol neu'r driniaeth a dderbynnir gan unrhyw glaf.

2.6 Tra'n gweithio i Raglen y Celfyddydau cynhwysir yr Artist ym mholsi Atebolwydd Trydydd Parti'r Ymddiriedolaeth.

2.7 Bydd cyfnod preswyl yr Artist yn cael ei fonitro mewn cyfarfod adolygu rhwng Rhaglen y Celfyddydau a'r Artist a staff y ward. Mae'n ofynnol i'r Artist gadw dyddlyfr am y prosiect yn rhoi manylion am yr oriau a'r diwrnodau a weithiwyd ac arsylwadau ar y sesiynau ar gyfer eu trafod a'u defnyddio yn yr adroddiad gwerthuso.

Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer [Manyion am y Sefydliad].

Rhif Elusen Gofrestredig [os yn berthnasol] [rhowch grynodeb o fanylion y contract].

3. FFIODED A THALIADAU

3.1 Mae Rheolwr y Prosiect yn cytuno i dalu i'r Artist gyfanswm o [swm a gytunwyd mewn geiriau], [swm a gytunwyd mewn ffigyrau] am y Gwaith. Dyma'r ffi sefydlog am y gwaith.

3.2 Bydd y ffi yn cael ei thalu mewn ôl-ddyledion mewn 12 (deuddeg) rhandaliad cyfartal o [swm rhandaliad] bob mis calendr drwy gredyd uniongyrchol trosglwyddedig i gyfrif banc yr Artist, drwy system gyflogres yr Ymddiriedolaeth. Bydd treuliau eraill y cytunwyd arnynt yn cael eu had-dalu ar gynhyrchiad derbyniadau eitemedig.

3.3 Mae'r Artist yn gweithio ar sail hunangyflogedig am dymor sefydlog ac mae'n gyfrifol am baratoi a chyflwyno cyfrifon i Gyllid y Wlad, fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth gyfredol ar gyfer yr hunangyflogedig. Nid oes gan yr Artist hawl i unrhyw hawliadau cyflogaeth statudol. Mae'r Artist yn atebol i dalu eu Treth Incwm eu hunain sy'n ddyledus o dan Atodlen D. Yr Artist sy'n gyfrifol am ddarparu tystiolaeth o statws hunangyflogedig ac yn absenoldeb tystiolaeth o'r fath gall y bydd yn angenrheidiol i'r Ymddiriedolaeth ddidynnu treth cyn talu'r Artist.

4 CYFFREDINOL

4.1 Bydd yr Artist yn sicrhau cydymffurfiaeth rhwng y cytundeb hwn a chytundebau a gyhoeddwyd gan yr is-gontractwyr.

4.2 Yn achos terfyniad y Cytundeb hwn, bydd yr holl ffioedd a gafodd eu talu i'r Artist gan y Rheolwr Prosiect, am yr hwn na roddwyd gwasanaeth, deunydd, neu gynnyrch amdano, neu wariant a wnaed tuag y Gwaith gan yr Artist, yn atebol am ad-daliad i'r Rheolwr Prosiect.

4.3 Bydd pob rhybudd a roddwyd o dan y Cytundeb hwn yn ysgrifenedig ac wedi ei gyfeirio at y parti arall yn y cyfeiriad a roddwyd

uchod a bydd y naill barti a'r llall yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau mewn cyfeiriad cyn gynted â phosib ar ôl i'r newid ddigwydd.

4.4 Ni ellir newid nac ychwanegu at y Cytundeb na'r Amserlen hon heb ganiatâd ysgrifenedig yr Artist a'r Rheolwr Prosiect (y partion).

4.5 Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys yr holl Gytundeb a'r ddealltwriaeth rhwng y partion ac amserlen y Gwaith.

4.6 Mae'r Cytundeb hwn yn rhwymo'r partion, eu gwrthddrychiaid a holl olynwyr eraill yn y teitl.

4.7 Mae cyfraith Lloegr a Chymru'n rheoli'r Cytundeb hwn.

AMSERLEN

DISGRIFIAD O'R GWAITH (mae pwyntiau 1 - 4 yn enghreifftiau o brosiect celf a chreffft i blant):

1. Darparu gweithdai celf a chreffft i blant ar draws deg ward bediatrig i blant mewn ysbytai.

2. Rhaglenni gweithgareddau i'w penderfynu drwy ymgynghori â'r plant. 3. Gweithgareddau i fod yn addas i bob grŵp oedran, rhyw ac ethnigrwydd y rhai sy'n cymryd rhan.

4. Darparu pecynnau gweithgareddau cyflawn ynghyd â chyfarwyddiadau a samplau o ddeunyddiau i blant sydd wedi mynegi diddordeb yn y prosiect ond heb fod yn ddigon iach i gymryd rhan, tra mae'r gweithgaredd yn digwydd yn y ward/ystafell ddydd/ystafell chwarae.

5. Bydd yr Artist yn bresennol ar y dyddiau a nodir yn y rhaglen sydd wedi ei hatodi.

6. Bydd gwerthuso'n rhan barhau o'r Gwaith er mwyn monitro cynnydd a chadarnhau bod y gwrthrychau'n cael eu diwallu.

7. Caiff grŵp llywio aml-asiantaeth ei sefydlu i fonitro cynnydd y prosiect a bydd yr Artist yn adrodd yn ôl i'r grŵp yn rheolaidd.

LLOFNODWYD gan [rheolwr Rhaglen y Celfyddydau], Rhaglen y Celfyddydau "Rheolwr Prosiect"

Llofnod Dyddiad

LLOFNODWYD gan [enw'r Artist]

Llofnod Dyddiad

Dolenni Defnyddiol

Y pecyn cymorth hwn a phethau eraill sy'n digwydd yng Nghymru:
<http://www.artsinhealth.wales>

Cyfleoedd Gwaith

Comisiynau Celf Cyhoeddus Arlein <http://publicartonline.org.uk/whatsnew/commissions>

Portal e-dendro y GIG– <http://etenderwales.bravosolution.co.uk>

Adran cyfleoedd Cyngor Celfyddydau Cymru www.artswales.org.uk

Blog Celfyddydau mewn Iechyd Prifysgol Fetropolitan Manceinion: <http://artsforhealthmmu.blogspot.com>

Canllawiau Defnyddiol, Adroddiadau a Phecynnau Cymorth i Weithwyr Celfyddydau mewn Iechyd

<http://www.publicartonline.org.uk/resources/practicaladvice/advicehealthcare/documents/VANartsinhospitalbriefing.pdf> - Canllawiau ar gyfer celfyddydau gwirfoddol 'Artistiaid mewn Ysbytai' yw'r ddogfen hon sef VAN (Voluntary Arts Network). Mae'n rhestru'r gwahanol fathau o leoliadau i Artist mewn amgylchedd ysbyty ac mae'n gwahaniaethu rhwng rolau cydlynwyr celfyddydau mewn ysbytai, Artistiaid preswyl, Artistiaid ar ymweliad ac Artistiaid a gomisiynwyd. Mae hefyd yn crybwyll y cynllun 'gwaith ar fenthyl' sy'n bodoli mewn rhai ysbytai.

<http://www.royalwolverhampton.nhs.uk/patients-and-visitors/arts-in-health/resources/> Pecyn Cymorth y Royal Wolverhampton – Celfyddydau mewn Iechyd y GIG – Hwyluso Gweithgareddau Celf i Oedolion mewn Ysbytai.

Mae'r pecyn cymorth gwerthfawr hwn yn cynnwys adrannau ar brofiad cleifion; gwybodaeth am Les Cleifion mewn Ysbytai a Rhaglen Gweithgaredd Celf ac ymagwedd tuag at hwyluso gweithgareddau celfyddydol. Maent yn ysgrifennu: Bwriad y pecyn cymorth hwn yw darparu pecyn cymorth ar gyfer hyfforddiant i'w ddefnyddio gyda'n tim cynyddol o wirfoddolwyr yn y celfyddydau, gan hybu arfer da a rhannu adnoddau ar gyfer gweithgareddau yr ydym wedi eu datblygu mewn ymgynghoriad â'n cleifion. Ei fwriad hefyd yw darparu adnodd ymarferol i rannu arfer da gydag Artistiaid a phobl broffesiynol eraill sy'n awyddus i gychwyn neu ymglyfrannu mewn prosiectau tebyg o fewn amgylchedd yr ysbyty.

<http://www.willisnewson.co.uk/publications.html> Llawlyfr hyfforddi gwerthfawr a defnyddiol ar gyfer sefydlu rhaglen gelfyddydau mewn ysbyty.

Mae http://www.publicartonline.org.uk/resources/practicaladvice/advicehealthcare/arts_in_healthcare.php yn cynnig ystod o gyngor ymarferol i Artistiaid; gwybodaeth am y broses gomisiynu, hawlfraint a chontractau ynghyd ag ystod o gysylltiadau defnyddiol i Artistiaid.

<http://www.lahf.org.uk/resources/getting-started> - Mae Fforwm London Arts in Health yn cynnwys gwybodaeth am sut i ddechrau arni, ynghyd â rhoi cyfarwyddiadau am gyfleoedd, adnoddau, newyddion a digwyddiadau.



Mae <http://www.artshealthandwellbeing.org.uk/resources/guidelines/search?keys=hospital> yn cynnig ystod o ganllawiau, astudiaethau achos a chyngor ymarferol.

Mae <http://www.artsandhealth.ie/resource/guidelines/> yn cynnwys dogfennau arweiniol sy'n annog arfer gorau mewn cynllunio a chyflwyno prosiectau celfyddydau mewn iechyd, ochr yn ochr â chysylltiadau a blogiau, erthyglau, podlediadau a fideos.

Fframweithiau Gwerthuso

<http://www.ae-sop.org/toolbox/phe-framework/> Mae Fframwaith Werthuso Aesop PHE ar gyfer comisiynwyr iechyd, sefydliadau'r trydydd sector, hyfforddwyr, cyllidwyr, ymarferwyr, rheolwyr, sefydliadau'r celfyddydau ac eraill â diddordeb mewn datblygu a gwerthuso rhaglenni celfyddydau mewn iechyd a llesiant. Fe'i comisiynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr. 'Menter Gelfyddydol â Phwrpas Cymdeithasol' yw Aesop.

<http://www.ae-sop.org/wp-content/uploads/2015/02/AESOP-1-The-Framework.pdf>

Fframwaith Aesop 1 ar gyfer datblygu ac ymchwilio'r celfyddydau mewn rhaglenni iechyd. Bwriad y fframwaith yw creu cysylltiad rhwng gweithgareddau'r celfyddydau ac ymchwil iechyd. Mae'n amlinellu'r manteision o ddefnyddio methodoleg gyffredin. Mae'r Fframwaith yn eich dwyn drwy wahanol gamau yn natblygiad ymyriad y celfyddydau mewn iechyd ac astudiaeth ymchwil gysylltiedig, ac yn eich gwahodd i roi sgôr i'ch prosiect. Mae wedi cael ei ddatblygu gan Tim Joss, Sefydlydd a Phrif Weithredwr Aesop.

<http://creativeandcredible.co.uk/>

This Toolkit is an ArtWorks Cymru Seed Fund Project Funded by:



